COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MAWRTH, 19 IONAWR 2021, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |
| NA Burnett | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Fiona Blick | Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Eiddo |
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Lynne Berry | Rheolwr Grŵp Adfywio Tai a Chymuned |
| Philip O'Brien | Rheolwr Trawsnewid Digidol a Gwasanaethau Cwsmer |

588. DATGANIADAU O FUDDIANT

Cyhoeddodd y Cynghorydd HJ David fuddiant niweidiol yn eitem 17 ar yr Agenda gan ei fod yn aelod ac yn Llywydd Clwb Athletau a Bowlio Cefn Cribwr. Gadawodd y Cynghorydd David y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried a chymerodd y Dirprwy Arweinydd yr awenau fel Cadeirydd yn ei absenoldeb, ar gyfer yr eitem hon yn unig.

589. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

590. CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, er mwyn rhoi diweddariad i'r Cabinet ynghylch Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a oedd yn nodwedd annatod o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Er mwyn rhoi gwybodaeth gefndir, eglurodd fod Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi'i basio gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 ac y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2021. Mae’n ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad a gweithio rhanbarthol.

Mae'r dull newydd fel y'i nodir yn y Bil, wedi'i gynllunio i fod yn ddull symlach, mwy hyblyg, wedi'i arwain gan y sector tuag at berfformiad, llywodraethu da a gwella. Y bwriad yw i Gynghorau fod yn rhagweithiol wrth ystyried sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid er mwyn galluogi cynllunio, cyflawni a gwneud penderfyniadau yn fwy effeithiol i ysgogi canlyniadau gwell.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) yn nodwedd annatod o'r Bil, sy'n mynd trwy broses Pwyllgor y Senedd ar hyn o bryd. Mae'r Bil yn cyflwyno:

- Pwerau i gynghorau gychwyn sefydlu CBCau sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaethau;
- Pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu CBCau sy'n cwmpasu pedair swyddogaeth lles economaidd, trafnidiaeth, cynllunio strategol a gwella ysgolion.

Mae gan CBCau ran i'w chwarae o ran dod â chydlyniant i lywodraethu rhanbarthol, cryfhau democratiaeth leol ac atebolrwydd trwy integreiddio'r broses o wneud penderfyniadau. Cynigiwyd y byddai pedwar CBC rhanbarthol ledled Cymru yn cynnwys De Ddwyrain Cymru, De Orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru. Y syniad fyddai adeiladu lle bynnag y bo modd, ar y trefniadau rhanbarthol presennol.

Esboniodd adrannau nesaf yr adroddiad rai o'r egwyddorion o ran sut y byddai'r uchod yn cael ei gyflawni, gan gynnwys rhoi manylion ynghylch swyddogaethau penodol CBCau a sut y byddai'r rhain yn cael eu llywodraethu gan reoliadau sydd newydd eu cyflwyno ar gyfer Cyd-bwyllgorau.

Yn ôl y Prif Weithredwr, disgwylir y byddai Cabinet Prifddinas-Rhanbarth Caerdydd (CCRC) a'r strwythur staffio yn trawsnewid yn CBC De Ddwyrain Cymru. Mae’r CCRC yn Gyd-bwyllgor Cabinet sydd eisoes yn brofiadol a dyma'r man cychwyn sylfaenol ar gyfer strategaeth. Nodwedd allweddol dull y CCRC, oedd cryfder model Cabinet Rhanbarthol sydd ag Arweinwyr (yn cynnwys deg Arweinydd Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taff; Torfaen; a Bro Morgannwg), ), yn dod at ei gilydd yn rheolaidd i wneud penderfyniadau er lles gorau'r rhanbarth.

Gorffennodd y Prif Weithredwr ei gyflwyniad, trwy ddweud bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r CCRC ar 7 Rhagfyr 2020, yn nodi egwyddorion arfaethedig dull CCRC mewn perthynas ag agenda'r CBCau a dangoswyd manylion o’r hyn oedd dan sylw ym mharagraff 4.7 o'r adroddiad.

Teimlai'r Arweinydd fod yr adroddiad yn garreg filltir allweddol, yn yr ystyr bod y Bil wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol, gan felly ganiatáu i CBCau ddod yn rhan o'r ffordd y byddai gwasanaethau rhanbarthol yn cael eu hehangu a'u darparu yn y dyfodol, fel datblygiad pellach i'r gweithio ar y cyd sydd eisoes yn bodoli yn rhanbarthol.

Un o'r egwyddorion allweddol fyddai y byddai CBCau yn cynnwys Arweinwyr awdurdodau lleol (ymhlith aelodau eraill), a fyddai'n caniatáu i fandad democrataidd gael ei roi ar waith ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â threfniadau Craffu effeithiol hefyd. Ychwanegodd ei fod yn cefnogi'r holl egwyddorion a amlinellwyd yn yr adroddiad, a fyddai'n gwella gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y fenter, wrth symud ymlaen. Byddai cynllun trosglwyddo a fframwaith ar gyfer cytundebau cyfreithiol yn cael eu sefydlu er mwyn symud ymlaen gyda’r CBCau a oedd yn hanfodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd y byddai gan hyn oblygiadau o ran cost.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol at baragraff 4.5 yr adroddiad, lle soniodd y byddai CBCau yn debygol o fod yn rhwym wrth ddeddfwriaeth

fel Deddf Cydraddoldeb 2010,Deddf yr Iaith Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Roedd yn tybio y byddai'r rhain yn berthnasol yn awtomatig?

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn llwyr ddisgwyl i hyn ddigwydd ac mae'n debyg bod y derminoleg hon wedi'i defnyddio, gan fod y rheoliadau ar hyn o bryd yng nghamau olaf y fformat drafft yn hytrach na'u bod wedi cael eu cymeradwyo'n llawn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi a chymeradwyo'r adroddiad.

591. MONITRO CYLLIDEB 2020-21 - RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 3

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor ar 31 Rhagfyr 2020. Ceisiodd gymeradwyaeth ar gyfer trosglwyddiadau cyllidebol rhwng £100,000 a £500,000 fel sy'n ofynnol gan Reolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor.

Dechreuodd ei chyflwyniad trwy atgoffa'r Cabinet fod y Cyngor, ar 26 Chwefror 2020, wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £286.885 miliwn ar gyfer 2020-21. Fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, mae rhagamcanion y gyllideb yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u hadrodd i'r Cabinet bob chwarter. Mae'r gwaith o sicrhau gostyngiadau cytunedig yn y gyllideb hefyd yn cael ei adolygu a'i adrodd i'r Cabinet fel rhan o'r broses hon.

Roedd Tabl 1 yn yr adroddiad yn nodi cyllideb refeniw net y Cyngor a'r alldro amcanol ar gyfer 2020-21 ar 31 Rhagfyr 2020. Roedd hyn yn dangos tanwariant net o £691,000, yn cynnwys gorwariant net o £1.187m ar gyfarwyddiaethau a tanwariant net o £7.177m ar gyllidebau corfforaethol. Roedd adran nesaf yr adroddiad yn esbonio manylion yr hyn yr oedd y sefyllfa ragamcanol yn seiliedig arno, a rhoddodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid grynodeb o hyn er budd yr Aelodau.

Roedd rhan nesaf yr adroddiad yn amlinellu'r pwysau ariannol yr oedd y Cyngor wedi ei wynebu ers Covid-19 a'r amrywiol ffyrdd negyddol yr oedd hyn wedi effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Byddai'r pwysau hwn hefyd yn parhau i'r dyfodol hyd y gellir rhagweld, ychwanegodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid.

Rhoddodd Tabl 2 yn yr adroddiad grynodeb o hawliadau gwariant Covid-19 hyd at fis Tachwedd 2020, tra rhoddodd Tabl 3 grynodeb o'r incwm a gollwyd o ganlyniad i'r pandemig hyd at Chwarter 2 2020-21, mewn perthynas ag Ysgolion a Chyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Yna rhannodd yr adroddiad wybodaeth ar feysydd Trosglwyddiadau Cyllidebol/Addasiadau Technegol a chynigion Lleihau Cyllideb.

Mae Tabl 4 yn yr adroddiad yn nodi Gostyngiadau Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol sydd heb eu cyflawni, a oedd yn dangos o'r gostyngiadau o £2.501m sydd heb eu cyflawni, ei bod yn debygol y byddai £1.792 miliwn yn cael ei gyflawni yn 2020-21, gan adael diffyg o £709k. Dangoswyd rhai o'r cynigion sy'n dal i fod yn annhebygol o gael eu cyflawni ym mharagraff 4.2.2 o'r adroddiad.

Amlinellodd paragraff 4.2.4 y cynigion i leihau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, sef cyfanswm o £2.413m, wedi'u dadansoddi yn Atodiad 2 a'u crynhoi yn Nhabl 5 yn yr adroddiad. Y sefyllfa bresennol yw diffyg rhagamcanol ar y targed arbedion o £490k, neu 20.3% o'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb.

Roedd crynodeb o'r sefyllfa ariannol ar gyfer pob prif faes gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad 3, tra crynhowyd prif effaith Covid-19 ar y gyllideb, pe tybiwyd nad oedd cyllid pellach ar gael gan Lywodraeth Cymru, yn Nhabl 6 ym mharagraff. 4.3 o'r adroddiad.

Roedd paragraffau olaf yr adroddiad yn canolbwyntio ar faterion cyllidebol yn ôl Cyfarwyddiaeth (gan gynnwys ysgolion), cyllidebau ledled y Cyngor ac adolygiad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i Swyddogion yn yr Adran Gyllid am eu rheolaeth ddarbodus o'r gyllideb mewn blwyddyn a oedd wedi bod yn anodd iawn lle'r oedd y Cyngor wedi wynebu pwysau ariannol digynsail. Estynnodd ei ddiolch i Lywodraeth Cymru am y cyllid yr oeddent wedi'i ddyrannu i CBSPAO yn ystod y cyfnod mwyaf heriol hwn, o gofio bod yr Awdurdod i bob pwrpas wedi cau ei swyddfeydd fis Mawrth diwethaf. Roedd yn falch hefyd bod y Cyngor wedi cyflwyno Cronfa Adferiad Covid-19.

Adleisiodd yr Arweinydd hyn ac ymdrechion parhaus staff i ddyrannu cyllid grant i filoedd o fusnesau ledled y Fwrdeistref Sirol, er mwyn iddynt oroesi'r pwysau ariannol sy'n dod yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, rhybuddiodd nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r lefelau cyllid a roddwyd yn ddiweddar yn cael eu cynnal wrth symud ymlaen. Roedd hyn yn dibynnu ar lefel y cyllid a fyddai'n parhau i gael ei ddarparu yn ystod y misoedd i ddod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn nodi'r sefyllfa refeniw a ragwelir ar gyfer 2020-21
- yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng £100,000 a £500,000 fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1.19 o'r adroddiad.

592. Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 3 2020-21

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, mewn perthynas â diweddariad am y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod chwarter a grybwyllwyd uchod.

Atgoffodd yr Aelodau bod y Cyngor, ar 26 Chwefror 2020, wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2020-21 i 2029-30 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Roedd y rhaglen gyfalaf wedi'i ddiweddaru a'i chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor ar 21 Hydref 2020. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y meysydd canlynol:

- Rhaglen Gyfalaf 2020-21 diweddariad Chwarter 3;
- Rhaglen Gyfalaf 2020-21 ac Ymlaen;
- Darbodus a Dangosyddion Eraill;
- Monitro'r Strategaeth Gyfalaf

Gan droi at y Rhaglen Gyfalaf, cyfeiriodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, at baragraff 4.1 yr adroddiad. Roedd yr adran hon o'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar
raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 ers i'r gyllideb gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor ac mae'n ymgorffori unrhyw gynlluniau a chymeradwyaethau grant newydd. Ar hyn o bryd cyfanswm y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 yw £33.888 miliwn, y mae £17.960 miliwn ohono'n dod o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO), gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, gyda'r £15.928 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys Grant Cyfalaf Cyffredinol.

Mae Tabl 1 yn yr adran hon o'r adroddiad yn dangos y rhaglen gyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth o’r man y cymeradwyodd y Cyngor yn Hydref 2020 (Chwarter 2) i chwarter 3.

Yna mae Tabl 2 yn crynhoi’r rhagdybiaethau cyllido cyfredol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021-21. Rheolir yr adnoddau cyfalaf i sicrhau’r budd ariannol mwyaf posibl i'r Cyngor. Gall hyn gynnwys ail-alinio cyllid i gynyddu grantiau'r llywodraeth i'r eithaf, esboniodd.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid at Atodiad A yr adroddiad, sy’n rhoi manylion y cynlluniau unigol yn y rhaglen gyfalaf, gan ddangos y gyllideb sydd ar gael yn 2020-21 o'i chymharu â'r gwariant a ragwelir.

Mae nifer o gynlluniau eisoes wedi’u nodi fel rhai sy’n gofyn am lithriad o ran y gyllideb i’r blynyddoedd i ddod, yn enwedig ers i'r pandemig ddod i'r amlwg. Yn chwarter 3 cyfanswm y llithriad y gofynnwyd amdano oedd £14.536 miliwn. Amlinellwyd manylion y cynlluniau hyn ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Dywedodd, ers yr adroddiad cyfalaf diwethaf ym mis Hydref 2020, bod nifer o gynlluniau newydd a ariannwyd yn allanol wedi’u cymeradwyo a rhai a ariannwyd yn fewnol, a oedd wedi'u hymgorffori yn y rhaglen gyfalaf. Mae’r rhain wedi’u cynnwys ar dudalennau 63/65 o'r adroddiad, gyda Rhaglen Gyfalaf Ddiwygiedig wedi'i chynnwys yn Atodiad B (i'r adroddiad).

Ym mis Chwefror 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020-21, a
oedd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus 2020-21 i 2022-23, ynghyd â rhai dangosyddion lleol.

Mae Atodiad C i'r adroddiad yn manylu ar y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2019-20, y dangosyddion amcangyfrifedig ar gyfer 2020-21 a nodir yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig. Mae’r rhain yn dangos fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r terfynau cymeradwy.

I orffen, rhoddodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, naratif byr ar Strategaeth Gyfalaf y Cyngor.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd fod pandemig Covid-19 wedi cael effaith niweidiol a sylweddol iawn ar Raglen Gyfalaf y Cyngor a bod hyn wedi bod y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod.

Dywedodd ei fod yn hapus i weld cyllid yn cael ei ddyfarnu gan LIC ar gyfer Canolfan Berwyn a golchfeydd Cwm Ogwr, a fyddai'n mynd tuag at wella cyfleusterau awyr agored yn yr ardal. Croesawyd hyn gan drigolion Cwm Ogwr.

Yn yr un modd, roedd yr Arweinydd yn croesawu cyllid ar gyfer gwella diogelwch ffyrdd ar gyffordd Heol Mostyn, Pyle, a fyddai’n cynorthwyo modurwyr sy’n teithio yn y cyffiniau. Roedd yn gobeithio y byddai modd dwyn ymlaen yr arian hwn a'i ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod gwir angen y cyllid ar gyfer datblygiad Trem-y-Mor ac os caiff ei wireddu, byddai'n manteisio ar y gwaith partneriaeth a ddatblygwyd gyda'r Awdurdod Iechyd a'r cyllid ICF a dderbyniwyd hyd yma, a oedd wedi cynorthwyo yn natblygiad y tîm Gofal Integredig yn Nhrem-y-Mor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Yn nodi rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2020 (Atodiad A i'r adroddiad);
- Yn cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor i'w chymeradwyo;
- Yn nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill rhagamcanol ar gyfer 2020-21 (Atodiad C i'r adroddiad).

593. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD 'PAROD AT Y DYFODOL'

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad, a'i bwrpas oedd hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr ymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol' 2020 a ofynnodd i ddinasyddion rannu eu barn ar sut y dylai'r Cyngor lunio ei wasanaethau yn eu barn nhw wrth symud ymlaen, fel rhan o'i strategaeth 'Ailgychwyn, Adfer ac Adnewyddu', mewn ymateb i bandemig Covid-19. Y bwriad oedd deall sut roedd y cyhoedd yn teimlo y gallai'r Cyngor edrych a sut y gallai ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol am y 5 i 10 mlynedd nesaf.

Esboniodd fod yr ymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol' 2020 yn ceisio cael barn ar gyfeiriad y Cyngor yn y dyfodol yn dilyn pandemig Covid-19. Byddai dyraniad adnoddau ariannol yn pennu gallu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant.

Yn dilyn sawl blwyddyn o ostyngiadau mewn cyllid gan lywodraeth ganolog, a phwysau ariannol parhaus, ynghyd â mynd i'r afael ag adferiad ôl-Covid-19, mae pob Cyngor ledled y wlad yn parhau i newid y ffordd y maent yn gweithio a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, fel bod sefydliadau yn gallu ymdopi gyda llai. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO) wedi gwneud gostyngiadau o £22 miliwn o'i gyllideb dros y pedair blynedd diwethaf (2017-18 i 2020-21), gyda disgwyliad y bydd gostyngiadau pellach sylweddol yn ofynnol dros y pedair blynedd nesaf.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 19 Hydref 2020 a 13 Rhagfyr 2020. Gofynnwyd i'r ymatebwyr rannu eu barn ar ystod o feysydd gan gynnwys:

- Ymateb i bandemig COVID-19;
- Busnes a'r economi;
- Iechyd a llesiant;
- Mynediad cwsmeriaid i swyddfeydd Dinesig;
- Digideiddio;
- Lefelau Treth Gyngor;
- Y dyfodol.

Esboniodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb, er mwyn casglu barn pobl ifanc, bod y tîm ymgynghori wedi mynychu cyfarfod Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar 24 Tachwedd 2020. Cymerodd y Cyngor Ieuenctid ran mewn trafodaethau ynghylch rhai o'r cwestiynau allweddol yn yr ymgynghoriad ac fe'i hanogwyd i gwblhau'r ymgynghoriad llawn ar-lein.

Nod yr ymgynghoriad hefyd oedd cyrraedd y rhanddeiliaid allweddol canlynol, y cyhoedd/preswylwyr, aelodau Panel y Dinasyddion, aelodau etholedig, gweithwyr CBSPAO, busnesau Pen-y-bont ar Ogwr, cynghorau tref a chymuned, llywodraethwyr ysgolion, aelodau Fforwm Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr (BCCEF), grwpiau diddordeb/cymunedol lleol, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-

y-bont ar Ogwr (BAVO), Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, partneriaid, ysgolion uwchradd (gan gynnwys penaethiaid) a'r cyfryngau yn lleol.

Yn ogystal â chynnwys cyfryngau cymdeithasol cyffredinol, crëwyd pedwar arolwg barn ar Twitter a gynhyrchodd 122 pleidlais i gwestiynau allweddol yn yr arolwg ymgynghori ar y gyllideb, ychwanegodd.

Roedd yr Adroddiad Ymgynghori ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad eglurhaol ac yn nodi'n fanwl y safbwyntiau a fynegwyd gan y rhai a gymerodd ran yn hyn.

At ei gilydd, mae'r cyngor wedi derbyn 1,831 rhyngweithiad sef cyfuniad o gwblhau arolygon, ymgysylltu mewn amrywiol gyfarfodydd, ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy Banel Dinasyddion yr awdurdod. Oherwydd effaith Covid-19, mae hwn yn ostyngiad o 5,606 (75%) ar y 7,437 rhyngweithiad o'r llynedd. Derbyniwyd cyfanswm o 1,421 o ymatebion i'r arolwg, sy'n ostyngiad o 58% ar y nifer o arolygon a gwblhawyd y llynedd.

Yna amlinellodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb er budd yr Aelodau, rai o'r prif ffigurau a themâu a gododd o'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â:

- Ymateb i'r pandemig;
- Busnes a'r economi;
- Iechyd a llesiant;
- Mynediad cwsmeriaid i Swyddfeydd Dinesig;
- Digideiddio;
- Lefelau Treth Gyngor;
- Nodau'r Cyngor i'r dyfodol

Diolchodd yr Arweinydd i'r Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb am y gwaith caled yr oedd wedi'i wneud mewn perthynas â manylion yr adroddiad ac roedd yn falch iawn o glywed bod awdurdodau lleol eraill wedi defnyddio Ymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol' CBSPAO eleni fel model o 'arfer da.'

Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd ei ddiolch am yr hyn a deimlai a oedd wedi bod yn Ymgynghoriad diddorol iawn o ran rhai o'i ganlyniadau. Roedd wedi bod yn ddiddorol nodi, nad oedd mwy o etholwyr nag yr oedd yn credu, wedi methu'r ffaith bod Swyddfeydd Dinesig ar gau o ganlyniad i'r pandemig a bod 6 o bob 10 ymatebydd wedi cadarnhau y byddent yn defnyddio gwasanaethau ar-lein y Cyngor wrth symud ymlaen. Roedd yn falch hefyd gweld nifer y tanysgrifwyr ar gyfer y gwasanaeth 'Go Delivery'.

Er bod yr Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod y nifer a ymatebodd i'r Ymgynghoriad wedi gostwng 75% o'i gymharu â'r llynedd, yn wyneb yr ymgysylltiad cynyddol blaenorol a welwyd o flwyddyn i flwyddyn cyn hyn, roedd hi'n dal i deimlo bod yr ymateb wedi bod yn dda iawn o ystyried Covid-19, ac wedi rhagori ar y disgwyliadau.

Gorffennodd yr Arweinydd y drafodaeth ar yr eitem trwy ychwanegu ei fod yn teimlo ei bod yn bwysig adeiladu ar ymgynghori wyneb yn wyneb yn y dyfodol hefyd, h.y. ar-lein yn yr hinsawdd sydd ohoni, er mwyn datblygu elfennau pellach o'r broses Ymgynghori.

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNWYD:</u> | Nododd y Cabinet ganlyniad yr ymgynghoriad gyda phartïon â diddordeb fel y manylir yn yr adroddiad ymgynghori sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad. |

594. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2021-22 I 2024-25

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig drafft 2021-22 i 2024-25 i'r Cabinet, sy'n nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd y gyllideb sydd wedi'u targedu ar gyfer arbedion angenrheidiol. Mae'r strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2021-2025 a chyllideb refeniw ddrafft fanwl ar gyfer 2021-22.

Dywedodd fod yr adroddiadau chwarterol i'r Cabinet ar y sefyllfa refeniw ar gyfer 2020-21 wedi amlinellu'n fanwl effaith y pwysau cost ychwanegol a'r golled incwm a wynebir gan y Cyngor trwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan sylweddol wrth liniaru mwyafrif y colledion hyn trwy eu gwahanol ffrydiau cyllido, yn fwyaf arbennig Cronfa Caledi Covid-19.

Fodd bynnag, mae angen i'r Cabinet a'r Cyngor nawr ystyried effaith tymor hwy'r pandemig a sut y bydd yn siapio'r Cyngor fel rhan o'i Raglen Adferiad.

Roedd effaith y pandemig wedi effeithio ar y lefelau incwm y byddai'r Cyngor wedi'u cael fel rheol, felly roedd gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2021-22 hyd yn oed yn fwy heriol na'r arfer, yn enwedig yn dilyn 10 mlynedd o arbedion cyllidebol sylweddol ers cyni.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, roedd yr Awdurdod wedi gwneud dros £65m o ostyngiadau yn y gyllideb, fel y dangosir ym mharagraff 4.1.1 o'r adroddiad. Roedd hyn bron i 25% o gyllideb bresennol y Cyngor.

O ran treth y cyngor, mae'r gyfran o hyn sy'n ofynnol i gydbwyso cyllideb y Cyngor wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae'n ariannu bron i 30% o'r gyllideb.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid at baragraffau 4.1.2 i 4.1.7 o'r adroddiad, meysydd gwasanaeth y Cyngor lle amlinellwyd cyfleoedd i arbed arian; mae Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb y Cyngor (BREP) wedi archwilio'r cynigion arbedion hyn yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Bydd barn y cyrff hyn yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ddechrau mis Chwefror, cyn i'r Cabinet wedyn argymell y Gyllideb i'r Cyngor yn ddiweddarach ym mis Chwefror 2021.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) y Cyngor wedi'i gosod yng nghyd-destun cynlluniau gwariant economaidd a chyhoeddus y DU, blaenoriaethau a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r MTFS yn cynnwys:

- Yr egwyddorion a fydd yn llywodraethu'r strategaeth a rhagolwg ariannol 4 blynedd;
- • Y rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020-21 i 2030-31, wedi'i chysylltu â meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad cyfalaf a'r Strategaeth Gyfalaf;
- Yr Asesiad Risg Corfforaethol, a fydd yn cael ei ddiweddaru a'i gynnwys yn y MTFS terfynol (ym mis Chwefror 2021).

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, fod Cynghorau wedi derbyn eu setliadau dros dro gan Lywodraeth Cymru ar 22 Rhagfyr 2020. Y prif ffigur yw cynnydd cyffredinol, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, o 3.8%, ledled Cymru ac, ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, cynnydd o 4.3% mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF), neu £9.064

miliwn. Er bod hyn yn well na'r disgwyl, byddai angen rheoli cyllid yn ddarbodus ac yn llwyddiannus wrth symud ymlaen.

Yna rhoddodd wybod am y sefyllfa o ran cyllid grant yr oedd y Cyngor wedi'i dderbyn, gan gynnwys y grantiau hynny a ddyfarnwyd o ganlyniad i'r pandemig.

Paragraff 4.7 o'r adroddiad, a chyfeiriodd wedyn at sefyllfa ariannol canol blwyddyn yr Awdurdod ar 31 Rhagfyr 2020.

Y sefyllfa gyffredinol ragamcanol ar 31 Rhagfyr 2020, oedd tanwariant net o £691,000, yn cynnwys £1.187 miliwn o or-wariant net ar gyfarwyddiaethau a thanwariant net o £7.177 miliwn ar gyllidebau corfforaethol, wedi'i wrthbwyso gan ddyraniad net i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £5.299 miliwn, gan gynnwys £2.5 miliwn i gefnogi buddsoddiad cyfalaf.

Roedd paragraff 4.8 yr adroddiad, yn rhoi manylion y MTFS am y cyfnod 2021-22 i 2024-25, tra bod paragraff 4.9 yn cynnwys manylion y 13 Egwyddor MTFS, a adolygwyd y llynedd.

O ran y Dreth Gyngor, mae Cyllideb Refeniw ddrafft 2021-22, a ddangosir yn Nhabl 6 yr adroddiad, yn rhagdybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.9%. Mae hyn yn is na'r cynnydd arfaethedig o 4.5% a gynhwyswyd yn MTFS 2020-21 i 2023-24 ym mis Chwefror 2020, oherwydd y setliad dros dro gwell na'r disgwyl ac o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd trwy'r ymgynghoriad ar y gyllideb.

Mae adran nesaf yr adroddiad yn cynnwys manylion Senarios MTFS ar gyfer ei chyfnod cyfredol o 2021-22 i 2024-25 o un flwyddyn i'r llall, gan gynnwys amcangyfrifon o'r Senario Gorau, Senario Mwyaf Tebygol a Senario Gwaethaf.

Dangosodd Tabl 4 ym mharagraff 4.13.1 yr adroddiad y sefyllfa bresennol o ran mynd i'r afael â'r gofyniad lleihau cyllideb mwyaf tebygol a ragwelir sef £22.095 miliwn.

Mae Tabl 5 yr adroddiad yn rhoi cynigion a nodwyd i leihau'r gyllideb ar gyfer y cyfnod 2021-22 i 2024-25.

Fel yr oedd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid eisoes wedi crybwyll yn ei chyflwyniad, roedd y MTFS wedi bod yn destun dadansoddiad sylweddol trwy broses trosolwg a chraffu'r Cyngor. Roedd hefyd wedi bod yn destun ymgynghori allanol gydag etholwyr CBSPAO fel rhan o ymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol' y Cyngor.

Mae Tabl 6 yn yr adroddiad wedyn yn rhoi manylion y Gyllideb Refeniw Ddrafft 2021-22ar gyfer CBSPAO ac yn seiliedig ar y gyllideb arfaethedig o £298.956m, byddai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer y cyfnod hwn yn 3.9%, a oedd yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd o'r blaen.

Yna rhoddodd paragraff 4.17 rai manylion ynghylch Cyflog, Prisiau a Demograffeg. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, mai amcangyfrifon oedd y rhain ar hyn o bryd, yn hytrach na manylion cywir.

Amlygwyd gwybodaeth mewn perthynas â Phwysau ar y Gyllideb ym mharagraff 4.19 o'r adroddiad, tra bod 4.20 yn nodi bod cynigion lleihau o £1.760m ar gyfer 2021-22 wedi'u nodi o gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol i sicrhau cyllideb gytbwys.

Mae Tabl 7 yn yr adroddiad yn dangos Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor, a rhannwyd gwybodaeth yn dilyn hynny gyda'r Aelodau mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf a'r

Strategaeth Ariannu Cyfalaf, fel yr eglurwyd yn fanylach mewn eitem gynharach ar yr agenda a ystyriwyd gan y Cabinet.

Mae Tabl 8 yn rhoi manylion y Dyraniadau Ariannu Cyfalaf Blynyddol ar gyfer 2020-21 a 2021-22 ac esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid yn fyr Dderbyniadau Cyfalaf a Darbodus (Benthyca Digymorth) y Cyngor.

Gorffennodd ei hadroddiad trwy gadarnhau, fel Swyddog Adran 151, bod gan yr Awdurdod,ddigon o adnoddau i gyflawni ei rôl fel sy'n ofynnol o dan A114 Deddf Llywodraeth Leol 1988.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod eleni wedi bod yn ddigynsail a chanmolodd y Swyddogion Cyllid felly am y gwaith paratoi a'r ymrwymiad a oedd wedi mynd i'r adroddiad gerbron yr Aelodau. Ychwanegodd fod yn rhaid i'r Cyngor baratoi ar gyfer dyfodol ansicr fodd bynnag, oherwydd y pandemig parhaus a'r pwysau y byddai hyn yn ei roi ar gyllideb y Cyngor wrth symud ymlaen.

Diolchodd hefyd i'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) am eu mewnbwn i'r MTFS, a oedd wedi cynorthwyo'r Cabinet yn eu trafodaethau a'u penderfyniadau ar y Gyllideb. Teimlai fod hyn i gyd wedi arwain at gydbwysedd yng nghynigion yr adroddiad.

Byddai adroddiad MTFS nawr yn cael ei gyfeirio at Trosolwg a Chraffu lle byddai eu mewnbwn hwy hefyd yn cael ei groesawu. Pe bai hyblygrwydd digonol i fwrw ymlaen ag unrhyw gynigion a wnaed gan Aelodau Craffu ac o ganlyniad i hyn, gwneud unrhyw addasiadau i'r MTFS, yna byddai'r rhain yn cael rhywfaint o ystyriaeth. O ran adran Cyflog, Prisiau a Demograffeg yr adroddiad, cadarnhaodd y byddai'r Cabinet yn rhoi ymrwymiad i gyflog byw go iawn i weithwyr y Cyngor.

Adleisiodd Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y mater ynghylch y cyflog byw go iawn yr ymrwymwyd iddo ar gyfer darparwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd fod Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant yn feysydd cyfnewidiol ac felly roedd angen rheoli'r gyllideb yn ofalus yn y meysydd gwasanaeth hyn. Ychwanegodd hefyd rai pryderon ynghylch effaith Covid hir ar unigolion, gan gynnwys y genhedlaeth iau, gan ychwanegu y gallai fod angen pecynnau i baratoi'r ffordd ar gyfer adferiad y cleifion hyn o'r agwedd hon ar y salwch, a fyddai'n golygu ymrwymiad ariannol.

Cydnabu'r Arweinydd faint y pwysau ariannol, yn enwedig y rhai o fewn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, a oedd wedi bod yn bwysau hanesyddol nid yn unig i CBSPAO, ond i awdurdodau lleol eraill hefyd. Byddai'r maes gwasanaeth cyllideb hwn yn cael ei fonitro'n agos wrth symud ymlaen, fel y byddai holl feysydd gwasanaeth eraill y Cyngor.

Adleisiodd y diolch a roddwyd gan y Dirprwy Arweinydd i Swyddogion Cyllid wrth baratoi adroddiad MTFS, yn ogystal ag Aelodau BREP, a oedd yn Banel Trawsbleidiol. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at sylwadau'r Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y cynigion cyllidebol yn y ddau gyfarfod pwyllgor a fydd yn cael eu cynnal yn ddiweddarach yr wythnos hon.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cyflwyno cyllideb flynyddol 2021-22 a datblygiad MTFS 2021-22 i 2024-25, fel y nodwyd yn yr adroddiad, at y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer ymgynghori, cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021.

595. GRANTIAU CYFLEUSTERAU I’R ANABL (DFG)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar y cynnig i ddatblygu a gweithredu model newydd o ddarparu gwasanaethau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) a chymeradwyo hyn.

- Gweithredu model gweithio newydd a fydd yn gweld y Cyngor yn mewnoli swyddogaethau'r broses DFG ar gyfer plant ac oedolion
- Defnyddio'r gyllideb gyfalaf i gefnogi mewnoli'r Broses DFG
- Awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i Gytundeb Cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot am gyfnod o hyd at ddwy flynedd i ddarparu cefnogaeth wrth i fodel mewnol Pen-y-bont ar Ogwr gael ei ddatblygu a'i sefydlu.

Esboniodd, yn dilyn Adroddiad Archwilio Cymru yn 2018, fod swyddogion wedi ymgymryd â gwaith sylweddol wrth adolygu darpariaeth y gwasanaeth DFG ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan ystyried yr argymhellion a wnaed.

Ychwanegodd fod ymweliadau â Chynghorau cyfagos yn cael eu cynnal i ddysgu o'u hadolygiadau a'r gwaith o ail-fodelu eu gwasanaethau DFG wedi hynny. Roedd Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at un o'r awdurdodau fel enghraifft o arfer da. Roedd yr holl awdurdodau yn gweithredu gwasanaeth DFG mewnol i oruchwylio'r cais o'r dechrau i'r diwedd.

Roedd y modelau ariannol ar draws Cynghorau yng Nghymru yn amrywio, fel a ganlyn:

- Mae rhai Cynghorau brigdorri'r gyllideb i dalu costau
- Mae rhai Awdurdodau eraill yn codi canran benodol o ffioedd yn amrywio o 10% i 15% o gostau gwaith
- Mae rhai awdurdodau yn codi ffi weinyddu hefyd yn ogystal â chanran benodol o'r ffioedd

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod cyllideb gyfalaf DFG Pen-y-bont ar hyn o bryd yn ariannu ffioedd gweinyddiaeth y Cyngor o £395 y cais ac, ar ben hynny, yn talu ffioedd i asiantau trydydd parti allanol a benodir yn unigol gan yr ymgeisydd. Ceir cefndir pellach yn adran 3 yr adroddiad.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad awdurdodau lleol ar lefel genedlaethol. Dywedodd fod Pen-y-bont ar Ogwr yn yr 20fed safle yng Nghymru a chyflwynodd y tabl yn 4.2.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, gyda'r ymchwil a wnaed a chysylltu â Craffu ac Aelodau, fod Swyddogion wedi dod i'r casgliad bod angen newid y gwasanaeth. Felly, argymhellwyd sefydlu prosiect peilot i fewnoli'r gwasanaeth DFG. Darparwyd mwy o fanylion am y gwasanaeth a'i weithrediad ym mharagraff 4 yr adroddiad.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, er mwyn darparu'r capasiti angenrheidiol ar gyfer y prosiect, cynigiwyd y dylid llunio cytundeb cydweithredol gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot (CNPT). Esboniodd fod gan CNPT wasanaeth mewnol a allai ddarparu'r capasiti ac y byddai'r ddau barti yn elwa trwy ddysgu ar y cyd a rhannu adnoddau. Esboniodd fod y risgiau a nodwyd o newid y

model darparu gwasanaeth wedi'u rhestru yn 4.15 yr adroddiad a rhestrwyd rheolaeth o'r risgiau hyn gan gynnwys y buddion i'r gwasanaeth, yn 4.16 o'r adroddiad.

Darparodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y goblygiadau ariannol fel y nodir yn adran 8 yr adroddiad. Dywedodd y byddai'r newid yn y gwasanaeth yn gost-effeithiol a'i bod yn disgwyl arbedion pellach ac effeithlonrwydd i ddod i'r amlwg dros y blynyddoedd i ddod.

Diolchodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i'r Swyddogion a oedd yn rhan o'r adroddiad hwn. Mynegodd fod angen newid ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nodwyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu diweddar, bod yn rhaid i aelodau'r cyhoedd aros cryn dipyn o amser am arian grantiau neu i'w cartref gael ei addasu i weddu i'w hanghenion meddygol.

Ychwanegodd fod nifer o faterion wedi cael eu hamlygu yn yr adroddiad ac roedd yn falch gweld bod y rhain yn cael eu hystyried wrth ailfodelu'r gwasanaeth.

Croesawodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad a chytuno â phwyntiau aelodau'r Cabinet ar natur fyrfyfr y gwasanaeth. Esboniodd fod pob diwrnod y mae'n rhaid i berson aros i DFG neu addasiadau cartref gael eu gwneud yn ddiwrnod arall o ddioddef ac felly roedd yn wasanaeth yr oedd angen iddo fod yn gweithio'n effeithiol er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithlon a safonol.

Gofynnodd Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar sut olwg fyddai ar lywodraethu'r gwasanaeth newydd a sut y byddai'n welliant ar yr hyn oedd ar waith ar hyn o bryd.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid ei bod wedi cymryd amser hir i gyrraedd y cam hwn oherwydd dad-wneud pob rhan o'r broses i sefydlu faint o amser a oedd yn ei gymryd i ddarparu gwasanaethau a'r hyn oedd ei angen er mwyn cyflawni gwelliannau. Ychwanegodd y byddai cael tîm prosiect o amgylch pob rhan o'r broses yn caniatáu dadansoddiad a chraffu priodol arno. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth, gyda pherfformiad isel y gwasanaeth yn y gorffennol, bod y ffocws wedi bod ar symud ymlaen, gwella ar yr amser gweithredu ar geisiadau ar gyfer pob unigolyn, yn ogystal â darparu mwy o DFG bob blwyddyn.

Gofynnodd yr Arweinydd pa asesiad a wnaed ar wasanaeth Cyngor CNPT a pha sicrwydd y gellir ei roi y gallai CBSPAO, wrth symud ymlaen, ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod yr Awdurdod, ynghyd â'r DP, wedi edrych ar bob elfen o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Gyngor CNPT i weld pa feysydd yr oedd angen i ni eu gwella fwyaf, ac wrth symud ymlaen, y byddai BCBC yn edrych tuag at fanteisio ar yr arbenigedd o'r meysydd hyn yn ei wasanaeth yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Yn cymeradwyo mewnoli'r gwasanaeth DFG;
- Yn cymeradwyo defnyddio'r gyllideb gyfalaf i gefnogi mewnoli'r Broses DFG;
- Yn cymeradwyo ymrwymo i'r cytundeb cydweithredu â CNPT ac atal y rhannau perthnasol o reolau gweithdrefn contract y Cyngor mewn perthynas â'r gofynion sy'n ymwneud â chaffael y gwasanaeth DFG y bydd CNPT yn ei gyflawni;

Yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, i gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb cydweithredu â CNPT ar ran y Cyngor ac i drefnu bod y cytundeb cydweithredu yn cael ei weithredu ar ran y Cyngor, yn ddarostyngedig i arfer yr awdurdod dirprwyedig hwnnw mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

596. CONTRACT RHEOLI PLÂU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a roddodd y cefndir, y sefyllfa bresennol a'r opsiynau i bennu'r ffordd orau ymlaen o ran gwasanaeth rheoli plâu.

Esboniodd fod gan CBSPAO gontract ar waith ar hyn o bryd a oedd yn darparu gwasanaeth rhad ac am ddim ar gyfer rheoli plâu domestig, a oedd yn cynnwys llygod mawr, llygod, chwilod gwely a chwilod duon. Ar hyn o bryd dim ond am wasanaethau i gael gwared â chwain a gwenyn meirch y mae CBSPAO yn codi tâl.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y contract cyfredol, a ddechreuodd yn 2017 ac a ddarperir gan y cwmni Rentokil, i fod i ddod i ben ym mis Ebrill 2021.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y contract cyfredol ychydig yn amhoblogaidd gyda thrigolion fel y nodwyd mewn arolygon a gynhaliwyd. Esboniodd, pan alwyd y contractwr allan, eu bod yn anelu at gyrraedd o fewn 3 diwrnod. Roedd hyn wedi arwain at roi’r gorau i 40% o alwadau.

Darparodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid ffigurau yn ymwneud â'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru a pha wasanaethau rheoli plâu a ddarparwyd ganddynt, gyda manylion y rhain i'w gweld ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad.

Hefyd, darparodd ffigurau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2019 a gasglodd safbwyntiau ar gynigion i leihau cyllideb. Manylwyd ar y rhain ym mharagraff 3.5 yr adroddiad.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y bu mwy o geisiadau am ddarpariaeth rheoli plâu yn enwedig ers cyfnod clo cyntaf Covid-19 ar 23 Mawrth 2020. Roedd y rhain wedi cynyddu tua 47%, a bod hynny i’w ddisgwyl gyda mwy o breswylwyr yn gweithio gartref.

Darparodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid 3 opsiwn a amlinellwyd yn y tabl yn 4.6 yr adroddiad, a disgwylir y costau/arbedion canlynol:

| Tâl adfer | Cost y Gwasanaeth. | Incwm Potential | Cost net i CBSPAO |
|---|---|---|---|
| Rhaniad cymesur 50/50 | £95,000 | £71,250 | £23,750 |
| Rhaniad o blaid taliadau consesiwn 80/20 | £95,000 | £57,000 | £38,000 |

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid yr argymhellwyd peidio â bwrw ymlaen ag opsiwn 3 gan fod hyn yn golygu’r gost uchaf i'r awdurdod ac y byddai angen ei ariannu o gyllideb graidd y Cyngor. Ychwanegodd fod Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 yn golygu newid yn y ddarpariaeth gwasanaeth ac felly'n destun ymgynghoriad cyhoeddus, a fyddai'n cymryd 12 wythnos i'w gwblhau.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth yn y cyfamser, cynigiwyd y dylai'r Cabinet atal y rhannau perthnasol

o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor sy'n gofyn am ymarfer caffael cystadleuol a chytuno i ymrwymo i gontract tymor byr o 6 mis gyda'r darparwr gwasanaeth rheoli plâu cyfredol Rentokil. Dywedodd fod y cynnig hwn yn torri gofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i roi Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor o'r neilltu.

Esboniodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod y gwasanaeth wedi'i glustnodi fel arbediad posib fel rhan o'r MTFS, ond roedd yn ymddangos ei fod yn wasanaeth poblogaidd yn gyffredinol er gwaethaf y pwynt a nodwyd ynghylch yr amser aros hi yn dilyn galwad.

Gofynnodd Aelod y Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a oedd opsiynau eraill ar gael a allai gynnwys elfennau o'r opsiynau a restrwyd. Esboniodd y gellid ystyried opsiwn a oedd yn cynnwys galwadau am ddim i lygod mawr yn unig, gan fod hyn yn cwmpasu'r mwyafrif o alwadau rheoli plâu.

Roedd yr Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn rhannu safbwyntiau tebyg ag aelod y cabinet ac esboniodd ei bod yn ymddangos bod poblogaeth y llygod mawr wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig gan fod bwytai wedi cau a bod eu ffynhonnell fwyd ynghanol trefi wedi lleihau. Dywedodd fod preswylwyr yn bryderus ynglŷn â rhoi gwybod am lygod mawr gan nad oeddent am gymryd perchnogaeth o'r broblem ac felly o bosibl yn gorfod codi tâl. Teimlai'r Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y byddai hyn yn achosi problemau pellach ynghylch rhoi gwybod am broblem pe bai tâl am hyn.

Cytunodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio nad oedd yr opsiynau a restrir yn ymdrin â'r materion y mae aelodau'r cabinet a'r cyhoedd wedi'u hwynebu yn ogystal â'r ystyriaeth bosibl o opsiwn hybrid.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd beth oedd cwmpas opsiwn 2 yn yr adroddiad. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y gellid ymgynghori ymhellach â darparwyr yn ogystal ag Awdurdodau Lleol i benderfynu pa opsiynau eraill y gellid eu darparu.

Dywedodd yr Arweinydd fod materion pla weithiau yn ganlyniad i faterion iechyd amgylcheddol eraill. Cytunodd fod angen mwy o wybodaeth ar sut roedd Awdurdodau Lleol eraill yn delio â'r materion hyn a sut roedd y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cyflwyno'r gwasanaethau hyn i Gaerdydd a Bro Morgannwg.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Yn cytuno i archwilio llwybrau pellach gyda'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (sy'n darparu cymorth rheoli plâu i Gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg) ar opsiynau amgen posibl eraill i'w dilyn o ran Rheoli Plâu i'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad.

- Yn cymeradwyo atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad i ail-dendro ac awdurdodi'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid i ymrwymo i gontract tymor byr o 6 mis gyda'r darparwr gwasanaeth rheoli plâu presennol, Rentokil.

597. CYNLLUN ADFYWIO GLANNAU PORTHCAWL: GWERTHU SAFLE’R STORFA FWYD

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cabinet ar farchnata safle'r siop fwyd yn ddiweddar (ar ran o faes parcio'r

Green a Salt Lake); a cheisiodd gymeradwyaeth i benodi a chael gwared ar y safle i'r cynigydd a ffafrir, yn unol â'r penawdau telerau arfaethedig.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod y safle wedi'i hysbysebu ar werth ar y farchnad agored gan EJ Hales, asiant penodedig y Cyngor.ym mis Medi 2020. Rhoddodd y Gofynion Gwneud Cynnig i'r Cabinet fel y'u rhestrir yn adran 4 yr adroddiad.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y broses ddethol yn dilyn y cynigion. Dywedodd fod cyfanswm o 5 cynnig, 3 ohonynt yn methu â chydymffurfio gan nad oeddent yn cyd-fynd â'r brîff datblygu cynllunio, a 2 gynnig a oedd yn cydymffurfio.

Roedd manylion y cynigion yn fasnachol sensitif ac maent felly'n ddienw fel a ganlyn; fe'u graddiwyd yn nhrefn y cynigion o'r gwerth uchaf i'r isaf am y pris i'w dalu am y tir:

- Cynnig 1 : Ddim yn Cydymffurfio: nid oedd y cais yn cyd-fynd â'r Briff Datblygu Cynllunio
- Cynnig 2 : Yn cydymffurfio
- Cynnig 3 : Yn cydymffurfio
- Cynnig 4 : Ddim yn Cydymffurfio: nid oedd y cais yn cyd-fynd â'r Briff Datblygu Cynllunio
- Cynnig 5 : Ddim yn Cydymffurfio: nid oedd y cais yn cyd-fynd â'r Briff Datblygu Cynllunio

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod Cynnig 1, nad oedd yn cydymffurfio yn flaenorol, wedi dod yn ôl gyda chynigion pellach ers hynny. Yn anffodus, roedd yr ystyriaethau hyn yn dal i beidio â chydymffurfio. Cyflwynwyd cynnig 2 gan Aldi Stores Ltd ac felly dyma'r cynigydd a ffefrir.

Ychwanegodd fod EJ Hales Ltd wedi ardystio bod y cais a ffefrir yn eu barn hwy yn gynnig ariannol hynod ddeniadol ac o ran gwerth mae'n sicrhau'r ystyriaeth orau.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mai'r cam yr oeddem yn edrych arno ar hyn o bryd oedd y cam gwaredu. Os byddai Aldi yn mynd ymlaen i brynu'r tir, byddai angen iddynt gyflwyno cais cynllunio ar gyfer hyn.

Croesawodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio yr adroddiad gan obeithio bod hwn yn garreg filltir yn adfywiad Porthcawl. Diolchodd i Aelodau Lleol Porthcawl am eu cefnogaeth barhaus gyda'r strategaeth a oedd wedi bod mewn grym ers sawl blwyddyn. Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a oedd unrhyw waith dylunio neu ddelweddau o'r sut allai'r adeilad edrych fel bod gan drigolion Porthcawl syniad o'r hyn i'w ddisgwyl.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod y brasluniau a gyflwynwyd yn fasnachol sensitif ar hyn o bryd gan ei fod yn ddyluniad pwrpasol. Roedd hyn nes i'r cynigydd llwyddiannus ddod yn berchennog y tir yn swyddogol. Esboniodd, unwaith y byddai Aldi wedi cyflwyno'r dyluniadau i gynllunio i'w hystyried, byddent yn hapus i'r dyluniadau gael eu rhannu â thrigolion ac i weithio gyda CBSPAO ar gyd-farchnata ac ymgynghori â thrigolion ynglŷn â hyn.

Croesawodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad gan nodi ei bod yn gyffrous gweld y datblygiad hwn yn digwydd. Ychwanegodd fod trigolion Porthcawl wedi dangos eu cefnogaeth iddo ar gyfryngau cymdeithasol. Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau cynllunio ac ati, pryd yr oedd trigolion Porthcawl yn debygol o weld drysau'r siop newydd yn agor.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei fod yn ddibynnol ar amserlen pob cam, ond gallem ddisgwyl gweld y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno cyn pen 6 mis, pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad, ac yna'n datblygu i ddechrau cyn pen 6 mis ar ôl cymeradwyo cais cynllunio. Fodd bynnag, roedd Aldi yn awyddus i ddechrau datblygu cyn gynted â phosibl.

Esboniodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau ei bod yn bwysig bod y datblygiad hwn yn sefyll fel ychwanegiad i ganol tref Porthcawl, yn hytrach nag yn ei erbyn. Gofynnodd pa lefel o integreiddio fyddai ganddo â chanol y dref ar hyn o bryd.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod cynlluniau ar gyfer adeiladu cysylltiadau teithio egnïol yn ogystal â llwybrau troed i ganiatáu i'r datblygiad newydd gysylltu'n dda â chanol y dref.

Ychwanegodd mai'r nod yn ychwanegol at hyn, gyda datblygiadau ym Mhorthcawl yn y dyfodol, oedd agor y llwybrau a'r ffyrdd hŷn i ddarparu cyswllt teithio sefydlog rhwng yr holl ddatblygiadau.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r cynigydd llwyddiannus sicrhau datblygiad o safon uchel fel y byddai'r porth hanfodol i ganol y dref a'r promenâd yn cael ei wella'n llawn. Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a oedd hyn wedi'i gyflawni.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod y cynlluniau cyfredol yn addawol. Roeddent yn bwriadu defnyddio deunyddiau lleol a phwrpasol ar gyfer y datblygiad ynghyd â rhai nodweddion pensaernïol, gan gynnwys mannau agored i'r cyhoedd. Roedd eu cynlluniau hefyd yn amddiffyn rhai o'r golygfeydd allweddol wrth yrru tuag at y môr.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd cynlluniau pellach ar waith i ddatblygu seilwaith cyfan Porthcawl yn dilyn y datblygiad hwn.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod cynlluniau pellach ar waith i ddatblygu llwybrau teithio mwy egnïol ym Mhorthcawl a'r cyffiniau, datblygu'r meysydd parcio yn ogystal â chyswllt bws. Ychwanegodd fod hyn yn rhan o'r darlun ehangach o ran adfywio Porthcawl.

PENDERFYNWYD Bod y Cabinet:

- Yn cymeradwyo gwaredu safle siop fwyd Porthcawl i Aldi Stores Ltd a gwneud y cytundeb ar gyfer prydlesu ar y telerau a amlinellir yn yr adroddiad hwn ac ar y cynnig pris gwerthu am y tir ac yn ddarostyngedig i'r pwynt bwled isod.

- Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio a'r Swyddog Adran 151, i gymeradwyo telerau'r cytundeb gwaredu a llunio'r cytundeb, gyda'r bwriad o'i gwblhau'n gyfreithiol y gwerthiant cyn gynted â phosibl.

598. PARC RHANBARTHOL Y CYMOEDD, PORTH DARGANFOD PARC GWLEDIG BRYNGARW

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar gyfle i gaffael cyllid pellach trwy Grant Cyfalaf Pyrth Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd, 2019-2021, a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn cynnig cyllid diwygiedig a

chytuno â'r partner cyflenwi Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i gefnogi cyflwyno gweithgareddau fel rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd ym Mharc Gwledig Bryngarw.

Darparodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd gefndir i barc rhanbarthol y cymoedd a'r cyllid a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Derbyniodd CBSPAO gynnig grant o £500,000 ar gyfer cyflwyno gweithgareddau ym Mharc Gwledig Bryngarw trwy Grant Cyfalaf Safleoedd Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd, 2019-2021. Ceir cefndir pellach yn adran 3 yr adroddiad.

Esboniodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd fod CBSPAO wedi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, ac yr aethpwyd atynt gydag ystod o gamau a fyddai yn ychwanegol at y camau y cytunwyd arnynt eisoes fel y'u rhestrir ym mharagraff 4 yr adroddiad.

Ychwanegodd fod y camau arfaethedig wedi cael eu cytuno wedi hynny gan Lywodraeth Cymru a bod cyfle yn bodoli i gael cyllid grant pellach o £147,000 i gefnogi'r gwaith cyflawni mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Er mwyn cael gafael ar gyllid ychwanegol, roedd angen i CBSPAO lunio cytundeb grant diwygiedig gyda Llywodraeth Cymru. Gwahoddir Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen fel partner cyflenwi i wneud cytundebau diwygiedig priodol gyda CBSPAO.

Dywedodd na fyddai angen cyllid cyfatebol gan CBSPAO a chyfanswm y grant ar gyfer y camau ychwanegol ym Mharc Gwledig Bryngarw oedd £657,000.

Croesawodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau yr adroddiad ac roedd yn ddiolchgar am yr arian grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig gyda'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer yr arian ychwanegol ynghylch ynni adnewyddadwy, a oedd yn gydlynol â strategaeth ynni adnewyddadwy 2030 CBSPAO.

Adleisiodd yr Arweinydd sylwadau Aelodau'r Cabinet ac roedd yn falch o weld buddsoddiad pellach mewn cyrchfan allweddol yn y cwm.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Yn derbyn y cyllid ychwanegol a'r cynnig grant diwygiedig o £647,000 ar gyfer cyflwyno gweithgareddau ym Mharc Gwledig Bryngarw trwy Grant Cyfalaf Safleoedd Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd, 2019-2021.

- Yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i wneud cytundeb diwygiedig ar gyfer cyflwyno'r uchod ac unrhyw fân ddiwygiadau dilynol gyda Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

599. STRATEGAETH DATGARBONEIDDIO PEN-Y-BONT AR OGWR 2030, LLWYBR I GYNGOR CARBON NIWTRAL (NET-SERO)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, a'i bwrpas oedd manylu ar y broses o ddatblygu Strategaeth Datgarboneiddio "Pen-y-bont ar Ogwr 2030". Byddai hyn yn ymateb pellach i Raglen Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd y Cyngor ac yn cyflwyno llwybr i Ben-y-bont Carbon Niwtral (a elwir hefyd yn Net-Sero) erbyn 2030, gan weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cymunedau a busnes.

Esboniodd bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019 gan nodi ei blaenoriaethau i fynd i'r afael â newid i Gymru er mwyn magu cydnerthedd. Yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r dull

hwn ac wedi cynnig ei fabwysiadu yng Nghynllun Corfforaethol CBSPAO 2021-22 wedi'i ddiweddaru.

Y meysydd ffocws ar gyfer datgarboneiddio yw ynni, trafnidiaeth, adeiladau a mannau agored.

Aeth ymlaen trwy nodi bod allyriadau carbon yn fesuradwy yn yr hyn y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei brynu i gymunedau, er enghraifft, sut mae ynni'n cael ei brynu a'i ddefnyddio, adeiladau'n cael eu cynhesu a'u pweru, contractau trafnidiaeth neu fflyd yn cael eu prynu. Roedd angen i bob corff cyhoeddus fynd i'r afael â dod yn Garbon Niwtral erbyn 2030, yn seiliedig ar fynd i'r afael â'r allyriadau cwmpas gwahanol, fel y dangosir ym mharagraff 3.5 yr adroddiad.

Parhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau trwy nodi, er mwyn cynnig meysydd blaenoriaeth a chanolbwyntio adnoddau, bod angen archwiliad carbon ar CBSPAO i ddeall yn llawn yr ôl troed carbon sy'n ymwneud â phob categori allyriadau o fewn y cwmpas, fel y dangosir ym mharagraff 3.5 (yr adroddiad).

O ran lle'r oedd CBSPAO erbyn hyn, roedd y Cyngor wedi datblygu ei Gynllun Ynni Clyfar yn 2019 gan gynnwys cyfres o brosiectau i fynd i'r afael â gwres datgarboneiddio, a gymeradwyodd y Cabinet ar 19 Chwefror 2019. Roedd hyn yn cynnwys Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerau, (mae cynnydd penodol yr rhain yn destun adroddiadau ar wahân i'r Cabinet,) mesuryddion clyfar ac ennill trydaneiddio gwres.

Er mwyn cwrdd â'r amcan carbon niwtral/carbon net-sero erbyn 2030, roedd angen ehangu, cyflymu cynnydd a phrosiectau o fewn y Cynllun Ynni Clyfar a chryfhau'r prosesau sy'n llywodraethu hynny. Mae Tabl 1 yn yr adroddiad, yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma o fewn pedwar maes ffocws blaenoriaeth LIC ar gyfer 2030.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, y byddai Bwrdd Rhaglen 2030 newydd ei ail-alinio yn gyfrifol am bob prosiect (a chytuno ar brosiectau ychwanegol), eu cwmpas, eu hyfywedd ac yn goruchwylio'r proffiliau ariannol a risg. Bydd Bwrdd y Rhaglen yn cyfleu buddion y rhaglen i'r gymuned ehangach a hefyd yn egluro rôl y Cyngor ar gyfer pob un yn eglur.

Daeth yr adroddiad i ben, trwy amlinellu rhai canlyniadau allweddol arfaethedig, ar ffurf nodau ac amcanion y Strategaeth.

Croesawodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau yr hyn a oedd yn adroddiad arloesol ac eang ei olwg, gyda rhai targedau heriol wedi'u cynnwys ynddo. Croesawodd y Strategaeth, a fyddai'n cael ei chyflwyno o ganlyniad i gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru. Byddai uchelgeisiau'r Strategaeth pan gânt eu gwireddu yn cynorthwyo i leihau allyriadau carbon yn ein hadeiladau a'n cyfleusterau, ymhlith eraill. Roedd yn falch o weld y byddai'r Strategaeth hefyd yn cael ei chefnogi gan Gynllun Gweithredu.

Roedd yr Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yn hapus gyda'r adroddiad, a oedd yn allweddol i gefnogi agenda Amgylcheddol gynyddol gadarn y Cyngor.

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a'r targedau ynddo hefyd, a oedd yn heriol ac yn uchelgeisiol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet :-

- Yn cymeradwyo datblygu strategaeth ddatgarboneiddio a chynllun gweithredu “Pen-y-bont ar Ogwr 2030” drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf

2021 ac yn nodi y bydd y strategaeth ddrafft hon a'r cynllun gweithredu yn cael eu hadrodd i gyfarfod cabinet yn y dyfodol cyn ymgynghori â'r cyhoedd.

- Yn cymeradwyo a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau sy'n ymgysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr ar strategaeth ddatgarboneiddio ddrafft “Pen-y-bont ar Ogwr 2030” a chytuno ar naratif a methodoleg a rennir gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer yr agenda datgarboneiddio ar gyfer y Fwrdeistref.

- Yn cymeradwyo datblygu strwythur Llywodraethu Rhaglen wedi'i ail-alinio a phenodi'r Aelod Cabinet dros Gymunedau yn Gadeirydd Bwrdd Rhaglen 2030 fel y nodir yn adran 4.10 o'r adroddiad.

600. <u>PROSIECT RHWYDWAITH GWRES TREF PEN-Y-BONT AR OGWR</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, a'i bwrpas oedd diweddaru'r Cabinet ar y cynnydd a wnaed o ran datblygu Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr a sicrhau nifer o benderfyniadau allweddol ynghylch dilyniant y prosiect.

Esboniodd fod Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gynnwys fel prosiect yng Nghynllun Ynni Clyfar (SEP) CBSPAO (a gymeradwywyd gan y Cabinet yn Chwefror 2019). Mae'r Cynllun Ynni Clyfar yn manylu ar y prosiectau y bydd CBSPAO yn cymryd rhan ynddynt yn ystod y cyfnod 2019 - 2025. Mae hyn yn cynnig profi amrywiol dechnolegau, cynigion defnyddwyr a modelau busnes i ddarparu llwybr i ddatgarboneiddio Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hefyd yn cyfrannu'n allweddol at strategaeth datgarboneiddio Llywodraeth Cymru (cyhoeddwyd Mawrth 2019) “Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel”.

Parhaodd trwy nodi bod cais grant cyfalaf wedi'i wneud i Lywodraeth y DU trwy'r Rhaglen Buddsoddi Rhwydwaith Gwres (HNIP) ym mis Ebrill 2019 a chymeradwywyd hyn ym mis Rhagfyr 2019 ar gyfer buddsoddiad cyfalaf o £1,000,000 tuag at adeiladu'r rhwydwaith gwres a £241,000 ar gyfer gweithgareddau cyn-adeiladu.

Trwy gydol 2020, aethpwyd ymlaen â'r prosiect trwy greu model ariannol newydd, paratoi cais cynllunio ar gyfer y storfa thermol, datblygu trwydded amgylcheddol ar gyfer y ganolfan ynni a chreu pecyn tendro ar gyfer caffael contractiwr dylunio, adeiladu a chynnal (DBOM) i reoli'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r rhwydwaith.

Mae prosiect DHN Tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyrraedd cam tyngedfennol ac mae angen sawl penderfyniad carreg filltir hanfodol i sicrhau dilyniant yn unol â'r Rhag-amodaul a nodwyd yn y Cynnig Cyllid Grant a ddarparwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i CBSPAO fel rhan o'r Amodau grant HNIP.

Rhaid i hyn ddigwydd erbyn 19 Mawrth 2021 ac felly, mae’n hanfodol bod yn rhaid i'r caffael fod ar y gweill erbyn Mawrth 2021. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid lansio'r hysbysiad caffael ym mis Chwefror 2021.

Yna, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, y bydd achos busnes llawn yn cael ei baratoi ac y bydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet cyn penodi unrhyw gontractwr. Yn ystod y broses gaffael bydd y Cyngor yn archwilio gwahanol opsiynau ac arloesedd o'r farchnad i'w hystyried yn yr achos busnes terfynol. Bydd manylion y Cyfrwng at Ddibenion Arbennig (SPV) sydd i'w sefydlu yn destun adroddiad pellach i'r Cabinet i'w gymeradwyo yn y dyfodol agos. Yn dilyn hyn, bydd y dogfennau tendro ar gyfer penodi'r DBOM yn cael eu rhyddhau, ond ni wneir unrhyw benodiad nes i'r Cyngor

gymeradwyo'r cynllun a swm y benthyciad ychwanegol fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf. Nodwyd manylion y tasgau unigol hyn ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad ymlaen.

Yn unol â Chynllun Ynni Ardal Leol CBSPAO, sy'n nodi mai rhwydweithiau gwres yw'r opsiwn mwyaf technegol a manteisiol yn economaidd ar gyfer datgarboneiddio gwres yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu Cam 2 o'r rhwydwaith gwres. Byddai Cam 2 yn brosiect mwy uchelgeisiol na Cham 1 a byddai ganddo'r potensial i gysylltu dau ysbyty, pedair ysgol a chartref gofal yn ogystal â datblygiad newydd posib ynghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Gwnaeth y Cyngor gais am arian grant gan Lywodraeth y DU (Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) trwy ei Uned Cyflenwi Rhwydwaith Gwres (HNDU) ym mis Mehefin 2020 am £132,150 i gyfrannu tuag at gost paratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2 y prosiect (£102,150) a chymorth adnoddau Rheoli Prosiect (£30,000).

Cymeradwyodd BEIS y cais am gyllid ym mis Medi 2020 ac mae pecyn tendro yn cael ei ddatblygu i gaffael yr ymgynghorwyr technegol, ariannol a chyfreithiol sydd eu hangen i baratoi'r achos busnes amlinellol ar gyfer Cam 2. Amcangyfrifwyd bod cost datblygu'r achos busnes amlinellol yn £150,000. Mae'r Cyngor yn darparu'r £47,850 sy'n weddill i baratoi'r achos busnes amlinellol. Bydd y £47,850 yn cael ei ariannu o gyllideb y Rhaglen Gwres (SEP) o fewn y Gronfa Adfywio Strategol.

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiad, roedd Adroddiad y Cabinet ym mis Ebrill 2018, yn nodi cost cyfalaf Cam 1 Blwyddyn 1 fel £1.959 miliwn, cynyddodd hyn i £4.229m ym mis Ebrill 2019 pan gafodd model ariannol diwygiedig ei greu fel rhan o'r cais am grant i Lywodraeth y DU trwy'r Rhaglen Buddsoddi Rhwydwaith Gwres. Sbardunwyd y cynnydd yn bennaf trwy gynnwys y datblygiad Sunnyside newydd Mae'r ffaith bod y datblygiad wedi tynnu'n ôl o'r cynllun wedi golygu bod gwariant cyfalaf Blwyddyn 1 yn £3.389 miliwn ar hyn o bryd. Mae'r costau o fewn y prosiect yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn yr achos busnes amlinellol gwreiddiol i'r Cabinet ym mis Ebrill 2018 a'r rhai a gyflwynwyd i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ym mis Ebrill 2019 oherwydd nifer o ffactorau, yn fwyaf arbennig y ffaith bod datblygiad Sunnyside wedi tynnu'n ôl o'r prosiect, uwchraddiadau i'r newidydd sy'n ofynnol yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, effeithiau chwyddiant a pharatoi ar gyfer cysylltiadau pellach y rhwydwaith yn y dyfodol. Amlinellwyd rhagor o wybodaeth am fanylion y costau ariannol ym mharagraffau 8 yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid yn fyr at gymhlethdodau'r adroddiad ynghylch y Cyngor yn gorfod diwygio ei Strategaeth Rheoli Trysorlys, er mwyn iddo fenthyg mwy na £1m i SPV ac er mwyn gwneud hynny, i fenthyca oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB).

Ychwanegodd y byddai adroddiad pellach felly yn cael ei roi gerbron Cyngor y Gyllideb ym mis Chwefror er mwyn cyflawni hyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau fod yr adroddiad hwn yn ymwneud yn uniongyrchol ag eitem flaenorol yr agenda h.y. Strategaeth Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030, a fyddai'n ceisio gwella'r defnydd o ynni a datgarboneiddio ynni yn adeiladau'r Cyngor. Byddai prosiect Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys nifer o gyfnodau a chan fod y prosiect yn fenter newydd, pwysleisiodd y byddai'n dod gyda rhai heriau. Ychwanegodd hefyd, y byddai angen addasu rhai o weithdrefnau caffael y Cyngor, er mwyn darparu ar gyfer rhai o gynigion y prosiect.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y bu paratoi a chynllunio enfawr ar gyfer y prosiect hwn gan ei fod yn gymhleth a'r cyntaf o'i fath ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'n croesawu adroddiadau cynnydd pellach wrth i'r prosiect esblygu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Yn cymeradwyo’r gwaith o symud Prosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn ei flaen.
- Yn cytuno y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer cynnwys prosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn y Rhaglen Gyfalaf ac yn cytuno ar y benthyciad i'r SPV, yn amodol ar gymeradwyaeth i newidiadau i Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
- Yn nodi y bydd angen diwygio'r Strategaeth Rheoli Trysorlys i alluogi'r Cyngor i roi benthyciad o £1.821 miliwn i'r SPV, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ddrafft 2021-22 a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ar 28 Ionawr 2021, ac i'r Cyngor i'w chymeradwyo ym mis Chwefror 2021.
- Yn cymeradwyo caffael a phenodi ymgynghorydd technegol/ariannol ac ymgynghorydd cyfreithiol i baratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2 Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr.
- Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i dendro am ymgynghorydd technegol/ariannol a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i baratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2 Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr a dyfarnu'r contractau i'r cynigwyr llwyddiannus, telerau cytundebol y contractau i'w cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio.
- Yn atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contractau’r Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i gaffaeliadau gael eu cynnal o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a chymeradwyo caffael contractwr Dylunio Adeiladu Gweithredu a Chynnal ar gyfer Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr trwy ddefnyddio'r weithdrefn a negodwyd gyda galwad ymlaen llaw am gystadleuaeth o dan Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016.
- Yn cymeradwyo bod Brodies LLP yn rhedeg gwaith caffael y Contractiwr Dylunio Adeiladu Gweithredu a Chynnal o dan y weithdrefn a negodwyd gyda galwad ymlaen llaw am gystadleuaeth o dan Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 ar ran y Cyngor.
- Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i dendro'r contract ar gyfer y contractiwr Dylunio Adeiladu Gweithredu a Chynnal ar gyfer Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio o dan y weithdrefn a negodwyd gyda galwad ymlaen llaw am gystadleuaeth o dan y Rheoliadau Contractau Cyfleustodau. 2016 ac yn nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ôl cwblhau’r gwaith o gaffael y contractiwr Dylunio Adeiladu Gweithredu a Chynnal ar gyfer gwneud penderfyniad ar gyfer dyfarnu'r contract ai peidio.
- Yn nodi y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 ar greu'r Cyfrwng at Ddibenion Arbennig a fydd yn darparu'r mecanwaith cyflenwi masnachol ar gyfer y prosiect.

601. CYNLLUN GWRES CAERAU

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd adroddiad, er mwyn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar hynt prosiect Cynllun Gwres Caerau; ceisio awdurdod gan y Cabinet i gynnal arfarniad opsiynau o ddulliau cyflwyno amgen ac i'r Cabinet gytuno i dderbyn adroddiad pellach gyda chynnig ar yr opsiwn a ffefrir a ffordd ymlaen.

Fel rhywfaint o wybodaeth gefndir, cadarnhaodd fod Cynllun Gwres Caerau wedi'i sefydlu fel prosiect arloesol iawn a’i fod yn bwriadu tynnu gwres o ddŵr a gynhwysir

mewn hen weithfeydd pyllau glo dan ddŵr, i ddarparu adnodd ar gyfer eiddo yng Nghaerau.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Dabl 1 ym mharagraff 3.5 yr adroddiad, a oedd yn dangos pyrth y penderfyniadau, gyda'u dyddiadau amcangyfrifedig gwreiddiol a diwygiedig. Dangosodd hefyd allbynnau'r prosiect a'r canlyniadau a fydd ar gael pe bai'r prosiect yn cael ei gau i lawr yn unrhyw un o'r gatiau penderfynu.

O ran y sefyllfa bresennol, dywedodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, fod rhai darnau allweddol o waith mewn perthynas â'r Cynllun wedi'u cwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf. Amlinellwyd y rhain ym mharagraffau 4.2 i 4.5 yr adroddiad.

O ganlyniad i'r gwaith hwn ac yn unol â'r pyrth penderfyniadau ar gyfer y prosiect y manylir arnynt ym mharagraff 3.6 o'r adroddiad, cynigiwyd yn awr y dylid cynnal arfarniad opsiynau i bennu hyfywedd ac addasrwydd dulliau cyflwyno amgen. Byddai'r arfarniad opsiynau yn seiliedig ar y set o feini prawf a restrir ym mharagraff 4.7 ac mae'n cwmpasu'r opsiynau y manylir arnynt ym mharagraff 4.8 o'r adroddiad.

Dywedodd y byddai barn gytûn ar yr arfarniad opsiynau yn cael ei ddatblygu gan aelodau'r Bwrdd Rhaglen Ynni, tra bod y camau nesaf ar gyfer y prosiect yn cael eu cynnig fel a ganlyn:

- Cynnal yr arfarniad opsiynau;
- Cyflwyno canfyddiadau'r uchod i WEFO i'w hystyried;
- Cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar ganlyniad yr arfarniad opsiynau ar gyfer penderfyniad ar sut i symud ymlaen ac, os oes angen, adroddiad dilynol i'r Cyngor.

Byddai hyn yn cymryd tua 6 mis i gyd, ychwanegodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd.

Daeth yr adroddiad i ben trwy egluro'r goblygiadau ariannol sy'n deillio o argymhellion yr adroddiad.

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet - Cymunedau ei bod yn bwysig nodi bod Prosiect Dŵr Mwyngloddiau Caerau yn brosiect arddangos, i'w sefydlu a dysgu ohono, a oedd wedi bod yn wir o ran y prosiect penodol hwnnw.

Er ei fod o'r farn ei bod yn siomedig na allai'r Cyngor edrych ar y Cynllun cyfredol yn ei gyfanrwydd fel y cynigiwyd yn wreiddiol, roedd yn falch o gadarnhau bod cynllun i gynnal elfen o brosiect Dŵr Mwyngloddiau o fewn lleoliad Caerau.

Roedd nifer o opsiynau i edrych arnynt fel rhan o'r Arfarniad a byddai'r rhain yn cael eu harchwilio'n ofalus yn unol â hynny, cadarnhaodd, yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar y Prosiect ac roedd hyn o werth wrth gwblhau Astudiaeth Ddichonoldeb, gan fod canlyniadau'r rhain ar brydiau, yn dangos bod angen dull gweithredu amgen neu adlinio'r prosiect penodol wrth symud ymlaen.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:

- Yn nodi'r camau a gymerwyd gan swyddogion mewn perthynas â chyflawni'r prosiect ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet.

- Yn cymeradwyo cynnal gwerthusiad opsiynau o fodelau cyflenwi amgen fel y manylir yn adrannau 4.7 a 4.8 o'r adroddiad.
- Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gytuno ar delerau terfynol yr arfarniad opsiynau mewn ymgynghoriad â Bwrdd y Rhaglen Ynni.
- Yn nodi y derbynnir adroddiad pellach ar ôl i'r arfarniad opsiynau gael ei gwblhau gyda chynnig ar yr opsiwn a ffefrir a ffordd ymlaen a, pe bai angen, argymell i'r Cyngor ddiweddariad i'r rhaglen Gyfalaf.

602. CYNLLUN YNNI CLYFAR - PROSIECT EFFEITHLONRWYDD YNNI DOMESTIG

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno i, a chadarnhau cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i brosiect Llywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd ynni eiddo domestig ym Mwrdeistref Sirol Mhen-y-bont ar Ogwr.

Esboniodd fod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi gweithredu 3 cham yn ei rhaglen effeithlonrwydd ynni domestig er 2009. Adroddwyd yn flaenorol i'r Cabinet am fanylion y camau hyn, gan gynnwys lefel buddsoddiad a buddion y cynlluniau, ym mis Ebrill 2019.

Bydd cam cyfredol y rhaglen, Cam 3, yn rhedeg rhwng 2018 - 2023 ac yn gobeithio buddsoddi £54m dros y cyfnod hwn mewn dros 6,000 o gartrefi mewn ardaloedd lle mae tlodi tanwydd yn gyffredin. Daw'r cyllid ar gyfer y rhaglen o ffynonellau ERDF, LlC a chwmnïau cyflenwi ynni trwy'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO). Prif ffocws y rhaglen yw lleihau tlodi tanwydd.

Esboniodd fod Llywodraeth Cymru bellach yn barod i lansio Rhaglen cam 3 ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fe'i cyflwynir gan Arbed am Byth, sef cwmni menter ar y cyd rhwng Everwarm a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Byddai Arbed am Byth yn gweithio gyda CBSPAO, gan adeiladu ar y dull partneriaeth presennol i gyflawni'r Cynllun Ynni Clyfar, i nodi ardaloedd o dlodi tanwydd lle gallai'r rhaglen gael yr effaith fwyaf. Bydd Arbed am Byth, fel Rheolwr y Cynllun, yn rheoli'r rhaglen o'r dechrau i'r diwedd a bydd yn nodi ac yn datblygu'r cynlluniau trwy ddatblygu perthnasoedd lleol â rhanddeiliaid a chadwyni cyflenwi.

Hyd yn hyn, roedd Rheolwr y Cynllun wedi cynnal ymarfer mapio lefel uchel o ardaloedd posibl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, lle gallai Rhaglen Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf gan nodi dwy ardal (bydd angen trafodaeth bellach ar y rhain i gytuno ar ffiniau ac ardaloedd gwirioneddol i'w hystyried). Y ddwy ardal gychwynnol oedd Cwm Ogwr a Porthcawl (Dwyrain).

Byddai'r broses o gael gafael ar gymorth ar ôl penderfynu ar leoliad ardal, yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwr y Cynllun gynnal asesiad o bob eiddo a dylunio pecyn o waith a allai wella effeithlonrwydd ynni'r cartref. Rhoddwyd enghreifftiau o'r mesurau a allai dderbyn cyllid trwy'r rhaglen ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd fod y capiau cyllido a sefydlwyd ar gyfer y rhaglen gan LlC wedi'u gosod fel a ganlyn:

- Hyd at £5,000 ar gyfer eiddo gradd E ar nwy
- Hyd at £8,000 ar gyfer eiddo gradd F & G ar nwy
- Hyd at 8,000 ar gyfer eiddo gradd E ddim ar nwy
- Hyd at £12,000 ar gyfer eiddo gradd F & G ddim ar nwy

Yn wahanol i gamau blaenorol y rhaglen hon, ni fyddai gofyn i CBSPAO baratoi cynigion, rheoli taliadau grant, caffael contractwyr ac ati. Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud hyn. Bydd rôl CBSPAO yn cael ei lleihau'n sylweddol ac yn lle hynny ei rôl fydd:

- Cytuno ar yr ardal lle bydd y rhaglen yn cael ei chynnig.
- Anfon llythyrau cychwynnol (wedi'u drafftio gan Arbed am Byth) gydag enwau preswylwyr arnynt yn eu gwahodd i gymryd rhan yn y rhaglen a mynychu digwyddiadau gwybodaeth.
- Darparu cefnogaeth mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned.

Nododd yr Aelod Cabinet - Cymunedau nad oedd hon yn rhaglen CBSPAO ac roedd ganddo rai pryderon felly, bod yr Awdurdod â gofal am weinyddu hyn ac oherwydd hynny, byddai'r preswylwyr o'r farn mai prosiect a arweiniwyd gan CBSPAO ydoedd mewn gwirionedd. Ni fyddai gan CBSPAO reolaeth lawn ar y gwaith a fyddai'n cael ei wneud fel rhan o'r prosiect. Roedd felly'n teimlo y dylid cael mwy o wybodaeth am union rôl CBSPAO yn y Cynllun a sut roedd hyn yn effeithio ar ein cyfrifoldebau i etholwyr a oedd yn gymwys ar gyfer y gwaith a fyddai'n cael ei wneud ar eu heiddo.

Cefnogodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yr uchod, ond ychwanegodd y byddai'r Cynllun pe bai'n cael ei ddatblygu yn y pen draw, yn gwella effeithlonrwydd ynni mewn eiddo yr oedd angen hyn arno, yn enwedig mewn lleoliadau difreintiedig yn y cymoedd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Mae'r Cabinet yn croesawu'r adroddiad ond cyn bwrw ymlaen ymhellach gofynnodd am gadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â chyflawni ac ôl-gwblhau.

603. <u>CAEAU CHWARAE CAE GOF</u>

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol adroddiad, a'i bwrpas oedd ystyried yr achos busnes a baratowyd yn unol â dogfen Bolisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) y Cyngor i gefnogi prydlesu'r pafiliwn bowlenni, lawnt bowlio, dau gae rygbi, a chyrtiau tenis yng Nghaeau Chwarae Cae Gof i Glwb Athletau Cefn Cribwr (CCAC); ac asesu'r pecyn cyllido y gofynnodd CCAC amdano o dan Gronfa £1 miliwn CAT a Chronfa Rheoli Newid y Cyngor i weithredu cynigion i ailddatblygu'r pafiliwn bowlio a gwelliannau draenio/cae a rheolaeth gyffredinol y lawnt bowlio a dau gae rygbi yng Nghaeau Chwarae Cae Gof.

Dywedwyd wrth y Cabinet, o dan y protocol CAT diwygiedig, y gallai Grŵp Llywio CAT gymeradwyo ceisiadau cyllido hyd at £50k o'r Gronfa £1 miliwn CAT, a bod yn rhaid cyfeirio'r holl symiau sy'n fwy na'r trothwy hwn at y Cabinet i'w cymeradwyo, a gan fod CCAC wedi cyflwyno sawl cais, roedd angen i'r Cabinet ystyried y mater.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod CCAC yn cynrychioli buddiannau'r adrannau rygbi a bowlenni ym Meysydd Chwarae Cae Gof a'u bod wedi cyflwyno mynegiant o ddiddordeb yn gyntaf yn y Prif Bafiliwn ar 12 Awst 2016 a gymeradwywyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cysylltiedig Cymunedau Cryf y Cyngor ar 5 Hydref 2016. Ail-ymgysylltodd y Clwb â'r broses CAT ar 10 Ionawr 2019 pan aethpwyd ymlaen â thrafodaethau mwy ffurfiol a oedd hefyd yn cynnwys Cefn Cribwr FC. Arweiniodd hyn at fynegiant o ddiddordeb ar y cyd gan CCAC a Cefn Cribwr FC ar gyfer prydlesu Caeau Chwarae Cae Gof gan gynnwys y Prif Bafiliwn a gymeradwywyd mewn egwyddor gan Grŵp Llywio CAT ar 19 Rhagfyr 2019.

Fodd bynnag, ar ôl barnu nad oedd llawer o gynnydd yn cael ei wneud gyda Cefn Cribwr FC, penderfynodd adrannau rygbi a bowlio CCAC ddatblygu CAT ar eu pennau eu hunain trwy gynnig cymryd prydles dros ran o Gaeau Chwarae Cae Gof, sef y Pafiliwn Bowlio a'r Lawnt, 2 x cae rygbi a chyrtiau tenis. Cytunwyd ar y cynnig diwygiedig mewn egwyddor gan Grŵp Llywio CAT ar 7 Rhagfyr 2020. O dan y trefniadau newydd mae

Cefn Cribwr FC wedi cadarnhau y byddent am gwblhau prydles ar wahân i'r Prif Bafiliwn a 2 x cae pêl-droed gyda thrafodaethau'n parhau ar hyn o bryd.

Roedd CCAC yn ceisio ymestyn y pafiliwn bowlio presennol i ddarparu ar gyfer anghenion rygbi, dyfarnwr, anabledd a chwaraeon benywaidd gyda Chaniatâd Amodol ar gyfer Cais Cynllunio P/20/624 /FUL yn cael ei gymeradwyo ar 4 Tachwedd 2020. Roedd y Clwb hefyd yn edrych i wella cyflwr y caeau rygbi sydd wedi bod yn destun arolwg cyflwr annibynnol gan Oolong Sports Pitch Consultancy ym mis Chwefror 2020 o dan gontract Cymorth Busnes CAT.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod CCAC wedi paratoi cynlluniau busnes ac ariannol manwl yn amlinellu eu cynigion i ailddatblygu'r Pafiliwn Bowlio a gwelliannau i'r caeau rygbi ac i roi sicrwydd ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd y prosiect. Adolygwyd y rhain gan yr Adran Gyllid a Grŵp Llywio CAT ac ystyriwyd eu bod yn dangos hyfywedd ariannol y prosiect.

Roedd CCAC hefyd wedi cyflwyno ceisiadau cyllid i'r Gronfa CAT a adolygwyd ochr yn ochr â'r cynlluniau busnes ac ariannol gan yr Adran Gyllid a'r Adran Barciau yn y lle cyntaf a chan Grŵp Llywio CAT.

Dangoswyd manylion hyn ar ffurf Tabl ym mharagraff 4.8 o'r adroddiad.

Roedd Syrfëwr Meintiau (Prosiectau Mawr) y Cyngor wedi adolygu'r gwaith adeiladu a gynhwyswyd o dan gynnig Gwaith Ymestyn a Gwaith Adferol y Pafiliwn Bowlio ac wedi penderfynu mai cyfanswm cost gwaith adeiladu oedd £154,441.55 a oedd yn cynnwys arian wrth gefn o £20,144.55 (neu 15%). Roedd CCAC wedi sicrhau, mewn egwyddor, gyfanswm o £40,000 o ddwy ffynhonnell allanol. Cyngor Cymuned Cefn Cribwr (£20,000) a Chronfa Etifeddiaeth Gymunedol Ford (£20,000) a oedd yn ychwanegol at £11,000 yr oedd y Clwb wedi'i glustnodi o'i gronfeydd ei hun tuag at y gost.

Defnyddiwyd yr arolygon cyflwr caeau annibynnol a gomisiynwyd o dan gontract Cymorth Busnes y Cyngor gan CCAC i lywio'r ceisiadau cyllido ar gyfer y gwelliannau i ddau gae rygbi (Cae A a Chae D) gyda dyfynbrisiau yn cefnogi'r cyllid y gofynnwyd amdano. Roedd y gwelliannau draenio a'r gwelliannau i'r caeau a nodwyd wedi cael eu hasesu gan y Rheolwr Gwasanaethau Mannau Gwyrdd a Phrofedigaeth o ran cynnwys technegol ac ystyriwyd eu bod yn rhesymol ar sail cymhariaeth o'r arolygon cyflwr cyfatebol. Roedd yr Adran Gyllid hefyd wedi adolygu'r ddau gais am gyllid ac wedi dod i'r casgliad na ellid ariannu gwaith a nodwyd a oedd yn gyfanswm o £20,688.45 (Cae A £9,043.20 a Chae D £11,645.25) ar gyfer gwelliannau draenio a gwelliannau i'r caeau o'r Gronfa CAT gan eu bod yn refeniw eu natur ac felly nid oeddynt yn gymwys i gael cyllid cyfalaf. Fodd bynnag, roedd cyllid refeniw o dan y Gronfa Rheoli Newid a neilltuwyd yn benodol ar gyfer gwelliannau draenio a gwelliannau i'r caeau y gellid ei defnyddio ar gyfer y rhan hon o'r prosiect.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod CCAC hefyd wedi cyflwyno cais am gyllid i alluogi prynu offer cynnal a chadw caeau gwerth £8,580.67 a oedd yn ychwanegol at gyllid o £5,232.38 a ddarparwyd eisoes o dan y Gronfa CAT i alluogi prynu offer i gynnal a chadw'r lawn bowlio. Aseswyd y ceisiadau cyllid a'r offer a nodwyd gan yr adrannau Cyllid a Pharciau ac ystyriwyd eu bod yn rhesymol.

Estynnodd y Dirprwy Arweinydd ei ddiolch i'r Swyddog CAT am yr holl waith caled yr oedd wedi'i roi i'r adroddiad a'i ganlyniad ffafriol. Roedd yn teimlo fod gan y Cyngor raglen CAT hyblyg ac anogodd Glybiau a Chymdeithasau eraill i ddod ymlaen a dilyn ôl troed Clwb Athletau Cefn Cribbwr trwy gymryd perchnogaeth o asedau yr oeddent yn eu defnyddio'n rheolaidd ac y cawsant fwynhad ohonynt.

Adleisiodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau y diolch a estynnwyd i'r Swyddog CAT a weithiodd yn galed iawn ac a oedd yn hynod effeithiol yn ei rôl. Er bod y broses a ddilynwyd yn y caffaeliad hwn wedi bod yn gymhleth, dangosodd yr hyn y gellid ei gyflawni pan roddwyd y cynnig i Glybiau gymryd perchnogaeth o'u tynged eu hunain. Cymeradwyodd y Cynllun Busnes yn y Trosglwyddiad hwn a oedd yn cynnwys nifer wahanol o nodweddion fel rhan o'r cynigion CAT.

Estynnodd Aelod y Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ei diolch i Glwb Athletau Cefn Cribwr am eu hymdrechion i ddod ymlaen a chymryd cyfrifoldeb am y cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r CAT.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo:

(1) Yr achos busnes (cynlluniau busnes ac ariannol) a gyflwynwyd gan CCAC i gefnogi prydlesu'r Pafiliwn Bowlio, lawnt bowlio, dau gae rygbi a chyrtiau tenis ym Meysydd Chwarae Cae Gof trwy ddangos hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y prosiect yn glir.

(2) Y ceisiadau cyllido cysylltiedig a gyflwynwyd gan CCAC o dan y cronfeydd CAT a Rheoli Newid a amlygwyd ym mharagraff 9.2 o'r adroddiad.

604. CYNLLUN BYSIAU BRYS - TREFNIADAU CAM 2

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr adroddiad y bwriedwyd iddo nodi'r cyd-destun ehangach, y cefndir a'r rhesymau dros y Cynllun Bysiau Brys (BES) a cheisio cytundeb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO) gytuno i egwyddorion cytundeb BES2 a sefydlu perthynas â'r awdurdod rhanbarthol arweiniol a'r llofnodydd sy'n sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn cwrdd â blaenoriaethau CBSPAO ac yn cael ei gyflawni ar ran CBSPAO.

Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod pandemig Covid-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar deithio ar fysiau. Roedd nifer y teithwyr wedi gostwng yn sylweddol, tra bod pellhau cymdeithasol a gofynion glanhau ychwanegol wedi rhoi beichiau a chostau ychwanegol ar weithredwyr.

Esboniodd bod Llywodraeth Cymru (LlC) ac awdurdodau lleol (ALl) wedi camu i'r adwy, i gefnogi'r sector gyda chymorth ariannol sylweddol. Hefyd, bu deialog barhaus, ragorol rhwng yr holl bartïon i drafod a chytuno ar drefniadau cymorth, ychwanegodd.

Parhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, trwy gynghori bod y Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth, wedi cyfarfod ag Arweinwyr pob un o'r 22 ALl, ynghyd â'i swyddogion, i amlinellu cyfeiriad teithio LlC. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) sydd wedi bod yn destun ymgynghori. Yn fwy diweddar, cyfarfu'r Dirprwy Weinidog, Lee Waters AS, â'r holl Arweinwyr i drafod y WTS ond hefyd i annog ALlau i ymuno â Chynllun Bysiau Brys 2 (BES2). Hwn oedd y cam diweddaraf o gymorth ariannol i helpu gweithredwyr trwy gyfnod y pandemig.

Ochr yn ochr â hyn, camodd LlC i mewn i helpu gweithredwyr i ddelio â llai o incwm ar lwybrau a weithredir yn fasnachol a'r costau ychwanegol yr eir iddynt. I ddechrau, roedd LlC yn sicrhau bod £29m ar gael o Gronfa Caledi, a oedd yn gweithredu o Ebrill 2020 am dri mis. Crëwyd y gronfa hon o arian a fyddai fel arall wedi cael ei dalu trwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (BSSG), ad-daliad Pris Siwrnai Consesiynol Gorfodol a chynllun 'Fy Ngherdyn Teithio'.

Yna cyflwynwyd y Cynllun Bysiau Brys ym mis Gorffennaf i ddarparu cefnogaeth barhaus. Daeth hyn yn hysbys fel 'BES 1' a pharhaodd i gynnal incwm gweithredwyr ar lefelau hanesyddol, yn seiliedig ar yr hyn a oedd yn cael ei dalu iddynt o dan gynlluniau grant blaenorol. Yn gyfnewid am y gefnogaeth ariannol hon, nododd LlC ei fod yn disgwyl i weithredwyr gyfrannu at ail-lunio gwasanaethau bysiau yng Nghymru, i gynnwys gwell rhwydweithiau rhanbarthol gyda mwy o integreiddio â gwasanaethau rheilffyrdd, system docynnu glyfar ac amserlennu.

Gan droi at y sefyllfa bresennol, dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, y bydd BES 2 yn parhau i fynd i'r afael â cholli refeniw o werthu tocynnau a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r pandemig. O dan BES 2 bydd cyllid LlC yn eistedd ochr yn ochr â chyllid awdurdodau lleol a ddarperir trwy'r Cynllun Teithio Rhatach a thrwy Grant Cymorth Refeniw, gyda'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bws i wneud iawn am y diffyg.

Byddai LlC yn cyd-lofnodwr cytundeb BES 2 gyda gweithredwyr bysiau, ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn dal i gael ei drafod ar hyn o bryd a gall fod yn destun newidiadau cyn iddo gael ei gwblhau. Mae ALl yn cadw cyfrifoldebau cyfreithiol am wasanaethau bysiau ac felly'n parhau i fod yn ganolog i benderfyniadau ynghylch pa wasanaethau lleol sy'n derbyn y gefnogaeth hon. Byddai angen iddynt gytuno ag egwyddor y cytundeb a'r berthynas â'u Hawdurdod Arweiniol, wrth sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn gyflawn eu blaenoriaethau ac yn cael ei gyflawni ar eu rhan.

Byddai hyn yn darparu'r sylfaen gyfreithiol i LlC wneud taliadau i'r gweithredwyr. Yn y modd hwn, gallai LlC ddefnyddio'i phwerau i gefnogi gweithredwyr, ond byddai'r cyllid ychwanegol yn torri terfynau de minimis ALl ar gyfer contractau dyfarnu uniongyrchol (manylion pellach yn y nodyn briffio yn Atodiad 1 a'r Cytundeb arfaethedig llawn yn Atodiad 2, i'r adroddiad). Byddai ALlau yn parhau i fod yn gyfrifol am y gwasanaethau hynny y maent ar hyn o bryd yn eu contractio'n uniongyrchol gyda gweithredwyr bysiau. Byddai angen i ALlau ystyried cynllunio ar gyfer hapddigwyddiadau, fel os nad yw'r cytundeb BES2 wedi'i lofnodi neu os yw lefel y cyllid ar gyfer BES2 yn cael ei ostwng yn ystod cyfnod y cytundeb.

Dangoswyd nodweddion allweddol BES 2 ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Gorffennodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol ei gyflwyniad, trwy gynghori bod costau BES2 yn cael eu hariannu trwy LlC i Gyngor Sir Fynwy fel awdurdod arweiniol. Wrth ymuno â BES2, roedd awdurdodau lleol felly'n cytuno i gymorth ariannol gael ei ddarparu i'r sector bysiau.

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet - Cymunedau ei fod yn hapus gyda'r adroddiad, y byddai ei ddarpariaethau yn caniatáu i gwmnïau bysiau gael gafael ar rai llwybrau cyllido.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod hefyd yn cefnogi'r cyllid ar gyfer y diwydiant bysiau trwy fuddsoddiad arian parod gan Lywodraeth Cymru.

Ychwanegodd ei fod hefyd yn cefnogi'r dull gwasanaeth bysiau rhanbarthol a fabwysiadwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle darparwyd gwasanaethau i/o'r Fwrdeistref Sirol i ardaloedd cyfagos, gan fod hyn yn sicrhau parhad cynllun trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol i ddefnyddwyr.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:

- Yn cytuno ag egwyddorion cytundeb BES 2 (Atodiad 2 i'r adroddiad) i sicrhau cefnogaeth ariannol (amodol) i'r sector bysiau a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau i sefydlu perthynas gyda'r awdurdod

arweiniol rhanbarthol a'r llofnodydd, sy’n sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn cwrdd â blaenoriaethau CBSPAO ac yn cael ei gyflawni ar ei ran.

- Yn derbyn adroddiad pellach ar gynigion diwygio bysiau sy'n ymwneud â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol maes o law.

605. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - GORLLEWIN PEN-Y-BONT AR OGWR - CANIATÂD I YMGYNGHORI AR GYNNIG STATUDOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad, a roddodd grynodeb i'r Cabinet o'r gwerthusiadau a gynhaliwyd ynghylch cynlluniau arfaethedig Moderneiddio Ysgolion ar gyfer ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys rhai argymhellion allweddol mewn perthynas â'r eitem hon.

Cadarnhaodd fod y Cabinet ar 21 Ionawr 2020 wedi rhoi cymeradwyaeth i gynlluniau Pen-y-bont ar Ogwr gael eu dwyn ymlaen trwy'r trefniadau cyllido MIM. Y ffordd orau ymlaen ar gyfer cynllun Pen-y-bont ar Ogwr yw:

- yr opsiynau addysg a ffefrir ar gyfer darparu ysgol cyfrwng Saesneg â dau ddosbarth mynediad ar safle - sy'n addas ar gyfer Ysgolion Cynradd Afon y Felin a Corneli gyda'i gilydd) a;

- darparu ysgol cyfrwng Cymraeg â dau ddosbarth mynediad ar safle - sy’n addas ar gyfer Ysgol Y Ferch o’r ’Sgêr wedi’i hymestyn.

Penderfynwyd ar y safleoedd a ffefrir ar gyfer datblygu dichonoldeb yr ysgolion newydd gan y Cabinet gan mai Valleys to Coast (V2C) yw perchennog Ystâd Marlas a safle presennol Ysgol Y Ferch o’r Sgêr/Canolfan Plant Integredig Corneli/Ysgol Gynradd Corneli.

Mae swyddogion y Tîm Moderneiddio Ysgolion wedi cael cyfres o gyfarfodydd gyda V2C a LlC er mwyn symud ymlaen â chynllun MIM ‘Band B’ Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr ac i amlinellu rhaglen briodol (rhaglen grynodeb ddrafft yn Atodiad 1 i’r adroddiad y cyfeiriwyd ato).

Esboniodd fod un safle ar gyfer yr ysgolion newydd arfaethedig yn y Gorllewin wedi'i nodi fel tir ym Mhlas Morlais, sy'n eiddo i V2C. Roedd y trafodiad tir yn seiliedig ar fargen ‘cyfnewid’ gyda V2C, lle mae CBSPAO yn cyfnewid safle Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin ar gyfer safle Plas Morlais V2C. Cytunwyd ar faterion tir gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Rhagfyr a'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod Penawdau Telerau mewn perthynas â'r cyfnewid tir sy'n ofynnol ar gyfer y cynllun wedi'u cytuno â V2C.

Roedd LlC wedi cadarnhau bod Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (CPAC) wedi'i sefydlu ym mis Medi 2020. O ganlyniad, roedd yr Awdurdod bellach yn gallu symud ymlaen i gyflawni prosiectau unigol trwy'r broses Cais am Brosiect Newydd, fel y nodwyd yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol.

Yna eglurodd, ym mis Tachwedd 2020, bod LlC wedi cymeradwyo cyflwyniad Achos Amlinellol Strategol CBSPAO mewn perthynas â chynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

Er mwyn symud y cynlluniau arfaethedig Band B Pen-y-bont ar Ogwr i gam 2 LlG MIM a cham cymeradwyo achosion busnes, roedd yn rhaid yn gyntaf fod wedi cwblhau prosesau statudol angenrheidiol y Cod Trefniadaeth Ysgol.

Er mwyn sicrhau newid o'r natur arfaethedig, nododd fod y Cod yn mynnu bod ymarfer ymgynghori â chorff llywodraethu ysgolion, staff, rhieni, disgyblion a phartïon â diddordeb yn cael ei gynnal.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod nifer o opsiynau ar gael o dan y Cod, o ran cyflawni'r trefnidaeth ysgol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynlluniau 'Band B' Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a bod y rhain wedi'u manylu (ar gyfer y cyfrwng Gymraeg a'r cyfrwng Saesneg) ym mharagraff 4.12 o'r adroddiad.

O ran y cynnig cyfrwng Cymraeg, nid oedd angen cau unrhyw ysgol (byddai modd ehangu Ysgol Y Ferch O'r Sgêr bresennol yn ffurfiol). O ran cyfrwng Saesneg, fodd bynnag, byddai un ysgol yn disodli dwy ysgol (gyda dau bennaeth).

Byddai adeilad y Ganolfan Plant Integredig (ICC) sydd wedi'i leoli ar safle Corneli ar hyn o bryd yn aros yn ei le o dan y cynnig 'fel y mae' ac o ganlyniad byddai wrth ymyl un o'r adeiladau ysgol newydd wedi cwblhau'r cynllun. Byddai gan yr adeiladau'r ddwy ysgol sydd newydd eu creu gyfleusterau cymunedol integredig. Rhagwelwyd felly ar hyn o bryd y byddai'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg bresennol yn Ysgol Gynradd Afon y Felin yn trosglwyddo i adeilad yr ICC pe bai'r cynnig yn cael ei symud ymlaen.

Roedd llain galed ar y tir ym Mhlas Morlais (sy'n eiddo i V2C), a fyddai'n rhan o'r safle y mae'n ofynnol ei ddatblygu ar gyfer darparu adeilad newydd yr ysgol. Esboniwyd y byddai darpariaeth chwaraeon awyr agored hygyrch i'r gymuned yn cael ei chynnwys fel rhan o'r cynlluniau adeiladu newydd arfaethedig, a ddylai negyddu unrhyw anfantais sydd wedi'i chanfod sy'n gysylltiedig â datblygu'r safle.

Gorffennodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei adroddiad, trwy gyfeirio at y goblygiadau ariannol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio fod yr adroddiad ar hyn o bryd ond yn cynnig ymgynghori ar y cynigion a gynhwysir ynddo a'i fod yn gobeithio i'r perwyl hwnnw, y byddai pawb sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn cymryd rhan yn hyn.

Ychwanegodd pe bai cynigion yr adroddiad yn cael eu symud ymlaen, yna byddai hyn yn dod ag Ysgolion Modern yr 21ain Ganrif i Ogledd Corneli ar gyfer cyfrwng Saesneg a Chymraeg, ynghyd â chynnydd mewn mannau gwyrdd wrth drawsnewid safle tir llwyd a thai fforddiadwy ychwanegol.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu darpariaeth addysg o'r radd flaenaf yn ardal Corneli a'i fod yn gobeithio y byddai'r ymgynghoriad yn cael cefnogaeth sylweddol gan rai fel athrawon, disgyblion, rhieni a chyrff llywodraethu'r ysgolion, o ran cefnogi dyheadau'r Awdurdod i ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg yn ardal orllewinol y Fwrdeistref Sirol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Yn nodi'r gwerthusiadau a gynhaliwyd fel y'u mynegwyd yn yr adroddiad;

- Yn nodi'r dull a ffefrir i gyflawni'r trefniadaeth ysgol angenrheidiol, h.y. cau'r ddwy ysgol cyfrwng Saesneg (Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) a sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg â dau ddosbarth mynediad ynghyd ag ysgol feithrin cyfrwng Saesneg gyda 60 lle a mwy gyda Chanolfan Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda 15 lle ar dir ym Mhlas Morlais (yn weithredol o fis Medi 2023) - ac i wneud newid rheoledig i'r ysgol Gymraeg (Ysgol Y Ferch O'r Sgêr) ar ffurf ei hengangu i

fod â dau ddosbarth mynediad ag ysgol feithrin cyfrwng Cymraeg gyda 60 lle a mwy ar safle presennol Ysgol Gynradd Corneli/Ysgol Y Ferch O'r Sgêr (yn weithredol o fis Medi 2024) a;

- Yn cymeradwyo cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.
-

606. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio adroddiad, a oedd yn hysbysu'r Cabinet am Adroddiad Gwybodaeth i'w nodi (ynghlwm) a gyhoeddwyd ers ei gyfarfod diwethaf.

Dangoswyd manylion yr Adroddiad Gwybodaeth ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad eglurhaol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad

607. EITEMAU BRYS

Dim.

608. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyriwyd yn yr holl amgylchiadau'n ymwneud â'r eitem, bod budd y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth, oherwydd bod y wybodaeth yn fasnachol sensitif ac mae'n ymwneud â busnes a materion ariannol y Cyngor a'r gwerthwyr arfaethedig.

609. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion Eithriedig y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:45